

## **Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (CBO) wrth dderbyn collfarn: Arweiniad i awdurdodau lleol am baratoi ceisiadau CBO**

### Cyflwyniad

Arweiniad yw hwn i baratoi ceisiadau am CBO wrth dderbyn collfarn. Mae'n nodi safon ofynnol y cynnwys ar gyfer ffeil CBO. Os na fydd y ffeil a gyflwynir i'r CPS yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ni fydd y CPS yn mynd â'r cais yn ei flaen. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod y ffeil o'r safon ofynnol ar gyfer gwneud a chefnogi cais am CBO.

Gellir gweld egwyddorion cyffredinol am y CBO yn Atodiad A.

### Ceisiadau gan yr awdurdod lleol am CBO wrth dderbyn collfarn

Dylid gwneud cais awdurdod lleol am CBO ar y templed cais (Atodiad B). Dylai'r swyddog awdurdod lleol lenwi'r templed cais, gan gofnodi'r holl fanylion perthnasol yn glir.

Rhaid i'r templed cais gael ei gyflwyno yn electronig i'r CPS trwy e-bost diogel. Rhaid anfon tystiolaeth i gefnogi'r cais am CBO gyda'r templed, yn benodol:

- Datganiad swyddog arweiniol sy'n crynhoi hanes troseddu diweddar y diffynnydd
- Argraffiad PNC Erlynydd cyfredol
- Datganiadau Personol Dioddefwyr, os yn angenrheidiol
- Datganiad Niwed Cymunedol, os oes angen
- Os cynigir ardal waharddedig, map [clir](#) o'r ardal a awgrymir. Os yw'r diffynnydd yn byw yn agos at yr ardal waharddedig, dylid nodi ei gyfeiriad/ei chyfeiriad cartref
- Barn y Tîm Troseddau Ieuencid (gweler isod)

Dylai'r dystiolaeth y mae'r cais yn seiliedig arni gynnwys yr holl droseddu perthnasol ers 21 Hydref 2013.

Pan fydd y troseddwr dan 18, rhaid i'r awdurdod lleol (neu'r heddlu, os mai nhw yw'r asiantaeth sy'n gwneud y cais) gael gwybod barn y Tîm Troseddau Ieuencid trwy anfon y cais at y Tîm trwy e-bost (Atodiad C). Dylai'r swyddog awdurdod lleol ffonio arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y Tîm Troseddau Ieuencid wrth wneud y cais i'w rybuddio o hynny a'r amserlen dan sylw. Dylid cynnwys cofnod o'r cyswllt gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid (gan gynnwys yr amser a'r dyddiad) ac unrhyw ymateb a dderbynnir yn y ffeil a gyflwynir i'r CPS.

Rhaid cynnwys barn y Tîm Troseddau Ieuencid fel rhan o'r ffeil CBO a gyflwynir i'r CPS.

Hefyd, dylai'r awdurdod lleol gyflwyno i'r CPS:

- Fersiwn ddrafft o'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (ffurflen CPR50)
- Hysbysiad achlust drafft

Rhaid i'r ddwy ddogfen fod ar fformat Word.

Mae Atodiad D yn rhoi cyfarwyddyd am gynnwys datganiad y swyddog arweiniol

Mae Atodiad E yn rhoi cyfarwyddyd am ddrafftio'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (ffurflen CPR50)

Mae Atodiad F yn rhoi enghraifft o hysbysiad achlust model.

Mae Atodiad G yn rhoi Canllaw i waharddiadau gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn achosion y cafwyd adroddiad amdanynt (a fydd o ddefnydd pan fydd y swyddog yn drafftio'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio)

Mae Atodiad H yn rhoi tystiolaeth enghreifftiol i gefnogi'r cais am y CBO  
Mae Atodiad I yn rhoi'r broses i ganfod barn y Tîm Troseddau Ieuencid

### Amseriad y cais

Dylid ymdrin â'r cwestiwn a ddylid ymgeisio am CBO mor fuan â phosibl. Yr amser delfrydol i ofyn am CBO yw wrth gyhuddo. Pan wneir y cais ar ôl y penderfyniad i gyhuddo, rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gyda'r ffeil gychwynnol er mwyn rhoi digon o amser i'r CPS adolygu a chyflwyno dogfennau. Os bydd achos yn symud yn gyflym tuag at ddedfryd, gall y CPS ofyn am CBO dros dro er mwyn i gais llawn gael ei gyflwyno a'i adolygu. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl unrhyw achos llys bron yn sicr yn rhy hwyr.

Pan fydd hanes troseddu gwrthrych yn teilyngu cais CBO, gall cais o'r fath gael ei baratoi yn briodol hyd yn oed os nad oes gan yr unigolyn erlyniadau troseddol yn yr arfaeth. Bydd y dull hwn yn caniatáu i gais gael ei gyflwyno i'r CPS yn brydlon pan fydd yr unigolyn yn cael ei gyhuddo a'i anfon i'r llys.

### Tystiolaeth ychwanegol

Mewn rhai achosion, gall fod yn addas cyflwyno tystiolaeth gan:

- Ddiodefwr troseddau'r gwrthrych, gan gynnwys unrhyw Ddatganiadau Personol Dioddefydd
- Ddiodefwr troseddau tebyg yn disgrifio pa mor gyffredin yw'r math hwn o droseddu yn yr ardal
- Swyddogion sydd â gwybodaeth leol yn disgrifio pa mor gyffredin yw'r math hwn o droseddu yn yr ardal
- Swyddogion gyda gwybodaeth arbenigol yn rhoi manylion am ddulliau gweithredu grwpiau troseddol penodol neu'r criw ac aelodau o gangiau
- Corff perthnasol (ee cymdeithas dai, addysg, ysbyty lleol) am yr effaith ar y gymuned leol a pha mor gyffredin yw'r math hwn o droseddu.

Dylai'r dystiolaeth ychwanegol gael ei chyflwyno ar ffurf datganiad s9 (fel y defnyddir mewn camau cyfreithiol)

Nid yw o bwys a fyddai'r dystiolaeth y dibynnir arni yn dderbyniol yn y llys yn yr achos pan gollfarnwyd y troseddwr. Os na fydd swyddogion yn siŵr am yr angen am dystiolaeth o'r fath, dylent gael cyngor gan y CPS.

**Egwyddorion cyffredinol**

Bwriedir y CBO ar gyfer ymdrin â'r troseddwr mwyaf difrifol a pharhaus pan fydd eu hymddygiad wedi eu dwyn ger bron llys troseddol. Gall CBO fod yn ymateb addas i unrhyw fath o droseddu ac nid yw wedi ei gyfyngu i ymddygiad gwrthgymdeithasol 'lefel isel'. Ni ddylid gwneud cais am CBO ym mhob un achos.

Gorchymyn yw CBO, sydd, er mwyn atal troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad sy'n debygol o aflonyddu, dychryn neu beri gofid i unrhyw un yn –

- a) Gwahardd y troseddwr rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn (a all gynnwys amod yn atal gweithredoedd penodol sy'n aflonyddu, yn dychryn neu'n peri gofid neu weithredoedd paratoadol y mae'r hanes troseddu yn dangos sy'n debygol o arwain at droseddau (er enghraifft, yr unigolyn yn mynd i mewn i ardal benodol);
- b) Gofyn i'r troseddwr wneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn (er enghraifft mynychu cwrs i addysgu troseddwr am alcohol a'i effeithiau).

Y CPS yw'r ymgeisydd am CBO, naill ai ar ei liwt ei hun neu yn dilyn cais gan yr heddlu neu awdurdod lleol. Y CPS sy'n penderfynu ymgeisio am CBO, nid yr heddlu na'r awdurdod lleol.

Gall y llys wneud gorchymyn os bydd dau amod yn cael eu bodloni:

1. Bod y llys yn fodlon, tu hwnt i amheuaeth resymol, bod y troseddwr wedi cymryd rhan mewn ymddygiad a oedd wedi aflonyddu, dychryn neu beri pryder neu yn debygol o wneud hynny i unrhyw un; a
2. Bod y llys yn ystyried y bydd gwneud y gorchymyn yn helpu i atal y troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

**Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (CBO) wrth dderbyn collfarn:  
Cais Awdurdod Lleol**

<b>Gofyn</b>	<b>Gwybodaeth am yr achos</b>	
<b>Rhif Cyfeirio Unigryw'r CPS</b>		
<b>Diffynnydd</b>		
<b>Dyddiad geni</b>		
<b>Llys</b>		
<b>Dyddiad y gwrandawriad</b>		
Rhestr fwled o hanes troseddu'r gwrthrych isod. Dylai'r rhestr grynhoi datganiad y swyddog arweiniol mewn un llinell, a chynnwys digwyddiadau pan achoswyd aflonyddwch, dychryn neu bryder, fod yn nhrefn amser a rhoi lleoliad ac amser pob digwyddiad.	Rhestrwch y gwaharddiadau neu ofynion a gynlluniwyd i atal troseddu tebyg o'r un math yn y dyfodol.	

**Y swyddog sy'n llenwi'r ffurflen:  
Cyfeiriad e-bost diogel:**

Dylid anfon y canlynol gyda'r cais am CBO:

- Fersiwn ddrafft o'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (ffurflen CPR50)
- Hysbysiad achlust drafft

Wedi eu hatodi hefyd mae'r dogfennau canlynol (er enghraifft):

- PC Joe White (datganiad swyddog arweiniol)
- Datganiad personol dioddefwr – Jason Smith, Rheolwr Siop, Tesco

**Cyflwynwch y cais a'r holl ddeunydd i'w gefnogi i'r CPS trwy e-bost diogel:  
(*rhoch gyfeiriad e-bost perthnasol y CPS*)**

Os na fydd y ffeil a gyflwynir i'r CPS yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y canllaw byr, ni fydd y CPS yn mynd â'r cais yn ei flaen. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod y ffeil o'r safon ofynnol ar gyfer gwneud a chefnogi cais am CBO.

**I'W ANFON AT A'I LENWI GAN Y TÎM TROSEDDAU IEUENCTID****Gorchymyn Ymddygiad Troseddol: barn y Tîm Troseddau Ieuencid**

Mae Adran 22(8) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 yn nodi:

*'Rhaid i'r erlyniad gael barn y tîm troseddau ieuencid lleol cyn gwneud cais i orchymyn ymddygiad troseddol gael ei wneud os bydd y troseddwr dan 18 oed pan wneir y cais'.*

Bydd yr heddlu / awdurdod lleol yn cynnwys y ddogfen hon, yn rhoi barn y Tîm Troseddau Ieuencid fel rhan o'r ffeil CBO a gyflwynir i'r CPS (gweler y ddogfen 'broses' am fanylion).

**Manylion yr achos (yr heddlu/ awdurdod lleol i'w llenwi)****Rhif Cyfeirio Unigryw'r CPS:****Enw'r person ifanc:****Lleoliad y llys a dyddiad y gwrandawriad:**

A yw'r person ifanc yn hysbys i'r Tîm Troseddau Ieuencid? Ydy / Na

A oes gan y person ifanc fater yn yr arfaeth i gael dedfryd? Oes / Na

Os 'oes', nodwch y cynigion i'r llys i ddedfrydu:

A yw'r person ifanc yn destun gorchymyn YOT ar hyn o bryd? Ydy / Na

Os 'ydy', nodwch y math o orchymyn a'i amodau a'i hyd:

Math o droseddu	Gwaharddiad / gofynion a gynigir	A yw YOT yn cytuno bod hyn yn addas Ydy / Na	Os Na, beth fydd YOT yn ei wneud i atal y troseddu yma
(Yr heddlu/ awdurdod lleol i'w llenwi)		(YOT i'w llenwi)	

**Manylion cyswllt YOT:** Awdur:

Manylion cyswllt:

## Gorchymyn Ymddygiad Troseddol – proses i ganfod barn y tîm troseddau ieuencid lleol

Cyn gwneud cais am CBO, os bydd y troseddwr dan 18 oed pan wneir y cais, rhaid i'r erlyniad gael gwybod beth yw barn y tîm troseddau ieuencid lleol. Bydd y broses, isod, a defnyddio'r templed sydd ynghlwm, yn sicrhau bod barn y tîm troseddau ieuencid yn cael ei gynnwys yn y ffeil o dystiolaeth a anfonir ymlaen at yr erlyniad.

- Yr heddlu/ awdurdod lleol yn dynodi'r posibilrwydd o wneud cais am CBO yng nghyswllt y person ifanc. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl, ac, yn ddelfrydol, wrth gyhuddo.
- Bydd yr heddlu / awdurdod lleol (fel y sefydliad sy'n paratoi'r cais am CBO) yn cael gwybod barn y tîm troseddau ieuencid, ac yn ffonio arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y Tîm Troseddau Ieuencid wrth wneud y cais i'w rybuddio o hynny a'r amserlen dan sylw. Dylai'r swyddog heddlu / awdurdod lleol gadw nodyn ffeil yn rhoi manylion y sgwrs gydag arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y tîm troseddau ieuencid.
- Y tîm troseddau ieuencid yn ystyried eu hymateb i'r cais ac yn cofnodi eu barn ar y templed (ynghlwm).
- Yr heddlu / awdurdod lleol yn paratoi'r cais am y CBO (gan gynnwys drafftio'r gwaharddiadau / gofynion a gynigir), a fydd yn cynnwys y templed a lenwyd gan y tîm troseddau ieuencid, a'u cyflwyno i'r CPS yn electronig ynghyd â thystiolaeth i gefnogi'r cais.
- Bydd yr erlynydd yn effro, wrth gyhuddo / adolygu ffeiliau, i achosion lle gall cais CBO fod yn addas ond na ofynnwyd amdano gan asiantaeth arall. Yr erlynydd i gofnodi'r angen i gael barn y tîm troseddau ieuencid ar yr MG3.
- Yr erlynydd yn adolygu'r ffeil o dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr heddlu, yn ogystal â'r cais am CBO a'r dystiolaeth i gefnogi hynny a roddwyd gan yr heddlu / awdurdod lleol.
- Pan na fydd barn y tîm troseddau ieuencid lleol yn rhan o'r ffeil CBO, rhaid i'r erlynydd gysylltu â'r heddlu / awdurdod lleol i ofyn am farn y tîm troseddau ieuencid.
- Bydd yr erlynydd yn paratoi Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio os na dderbynnir barn y tîm troseddau ieuencid cyn pen 5 diwrnod gwaith.

### Cyfarwyddyd am gynnwys datganiad y swyddog arweiniol

Wrth ddrafftio datganiad y swyddog arweiniol, dylai'r swyddog:

1. Gynnwys cyflwyniad un paragraff yn rhestru teitl ei swydd a'i arbenigedd
2. Os yw'r math o drosedd yn broblem benodol yn lleol, crynhowch y broblem gan gyfeirio at gwynion a dderbyniwyd i ddangos yr effaith ar y gymuned leol, gan osgoi defnyddio iaith emosiynol. Gall hyn, er enghraifft, ymdrin â:

- Puteindra
- Gwerthu cyffuriau
- Defnyddio cyffuriau
- Troseddau cerbydau

.. mewn lleoliad penodol.

3. Disgrifiwch hanes troseddur gwrthrych yn nhrefn amser wedi ei rifo, gyda'r digwyddiad mwyaf diweddar yn gyntaf:
  - Dim ond digwyddiadau sydd wedi aflonyddu, dychryn neu beri pryder ddylai gael eu rhestru. Nid oes arnom angen manylion o gyfarfodydd i drafod y troseddwr, er enghraifft.
  - Dylai pob digwyddiad sy'n cael ei restru gael ei ddisgrifio yn gryno, gan sicrhau bod y dyddiad, amser a lle yn cael eu nodi. Os yw'r drosedd yn cael ei chyflawni mewn ardal waharddedig a gynigir, dylid crybwyll hyn.
  - Dylid enwi unrhyw bobl yr oedd y diffynnydd yn eu cwmni
  - Dylai dioddefwyr gael eu henwi, ac eithrio pan fyddant wedi rhoi eu tystiolaeth yn ddiennw.
  - Ar gyfer pob digwyddiad, dylid rhoi hanes sut yr ymdriniwyd ag ef. Dylai swyddogion Awdurdod Lleol gysylltu gyda'r heddlu i gael manylion collfarnau a dedfrydau.
  - Dylid rhoi manylion unrhyw ymdrechion blaenorol i atal troseddau (Cytundebau neu Gontractau Ymddygiad Derbyniol er enghraifft) yn y datganiad, gan gynnwys dyddiadau a chanlyniadau.

Nid yw'n angenrheidiol i'r datganiad ymdrin â materion cyfreithiol na thrafod y gwaharddiadau a'r gofynion. Os yw'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (CPR50) wedi ei ddrafftio'n gywir, bydd y cysylltiad rhwng y troseddau blaenorol a'r gwaharddiadau a gofynion a gynigir yn amlwg iawn.

**Ffurflen Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (CPR50): cyfarwyddyd am ddrafftio'r cynnwys**

Wrth ddrafftio'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio (CPR50), dylai'r swyddog:

1. Lenwi rhan 6.1 i sicrhau bod ple ar gyfer pob trosedd:
  - Bod prawf tu hwnt i amheuaeth resymol yn bosibl. Bod y ffeithiau am gollfarnau blaenorol y diffynnydd yn dystiolaeth orau. Os yw'n bosibl, mewn amgylchiadau cyfyng, dylid cyflwyno'r ffeithiau am faterion na chafwyd collfarn amdanynt hefyd, pan fydd y rhain yn berthnasol i'r gwaharddiadau neu ofynion a geisir
  - Wedi aflonyddu, dychryn neu beri pryder neu yn debygol o wneud hynny
  - Yn cael ei ddisgrifio yn gryno. Dylai disgrifiad dwy linell fod yn ddigon. Canolbwytchwch ar yr hyn a wnaeth y diffynnydd ('*roedd deg rap o gocên ym meddiant X'*), NID ymateb yr heddlu ('*roedd y swyddogion ar batrôl pan wnaethon nhw sylwi...'*)
  - Bod y canlyniad wedi ei gofnodi.
  - Sicrhau bod y dystiolaeth am droseddu ar ôl 21 Hydref 2013.
  
2. Gynnig gwaharddiadau sy'n:
  - Cael eu drafftio i ymdrin â'r ymddygiad troseddol a restrir yn 6.1
  - Gymesur i'r risg gyffredinol o ail droseddu. Gall un neu ddau o waharddiadau wedi eu drafftio yn dda ymdrin â'r rhan fwyaf o wrthrychau. Bydd yn anarferol iawn bod angen mwy na chwech.
  - Yn rhai y gellir eu gorfodi ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir, (gweler Atodiad F). Mae gwaharddiad sydd wedi ei eirio yn glir yn haws ei orfodi, er enghraifft:

*'Rhaid iddo beidio bod gydag X, Y a Z mewn unrhyw fan cyhoeddus'*  
NID  
*'yn cael ei wahardd rhag cyfeillachu â X, Y a Z'.*
  - Os gofynnir am ardal waharddedig, dylid ei nodi ar fap maint A4 (efallai y bydd angen maint A3 mewn rhai amgylchiadau) a'i ddisgrifio mewn geiriau:

*'Rhaid i'r diffynnydd beidio â ... mynd i ardal Canol Tref Walthamstow a ddangosir ar y map sydd ynghlwm ac o fewn ffiniau:*

    - *Northcote Road, Elmsdale Road a Hatherley Road*
    - *Hoe Street (o'i chyffordd gyda Hatherley Road hyd ei chyffordd â Queen's Road)*
    - *Queen's Road*
    - *Markhouse Road, St James Street a Blackhorse Road*
  
3. Gynnig gofynion i helpu i atal rhagor o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai'r gofyn anelu at ymdrin ag achosion sylfaenol yr ymddygiad. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:
  - Cwrs rheoli tymer pan fydd troseddwr yn ei chael yn anodd ymateb heb drais
  - Mentora ieuencid



- Sesiwn ymwybyddiaeth camddefnyddio sylweddol pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y troseddwr yn digwydd pan fydd wedi bod yn yfed neu'n defnyddio cyffuriau, neu
- Cwrs paratoi at waith i helpu troseddwr i gael gwaith a symud oddi wrth yr amgylchiadau sy'n ei achosi i gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyn cynnwys gofyn, rhaid i'r llys dderbyn tystiolaeth am ei addasrwydd a'r modd y gellir ei orfodi gan:

- a) Yr unigolyn sydd i'w nodi yn y gorchymyn, neu
- b) Unigolyn sy'n cynrychioli'r sefydliad i'w nodi yn y gorchymyn.

Er mwyn cael tystiolaeth o addasrwydd ac i ba raddau y gellir gorfodi gofyn, byddai'n ddigon i'r swyddog arweiniol gadarnhau ei fod wedi siarad â'r unigolyn / sefydliad a chadarnhau addasrwydd ac i ba raddau y gellir gorfodi'r gofyn.

Gall yr unigolion neu sefydliadau fod yn awdurdod lleol, darparwr tai, sefydliadau trydydd sector, darparwyr cyrsiau adfer o gamddefnyddio sylweddau cydnabyddedig neu hyfforddwyr cŵn i berchenogion cŵn anghyfrifol.

Os byddwch yn gofyn am un neu fwy o ofynion dylech sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd.

Dylai gwaharddiadau a gofynion osgoi:

- 1) Unrhyw ymyrraeth ar yr amserau y mae'r troseddwr yn arfer gweithio neu fynychu'r ysgol neu unrhyw sefydliad addysgiadol arall;
- 2) Unrhyw wrthdaro ag unrhyw orchymyn llys neu waharddeb arall y gall y troseddwr fod yn ddarostyngedig iddynt.

Pan fydd yr awdurdod lleol yn gwneud cais am CBO gyda gofynion positif, dylai'r awdurdod lleol roi gwybod i'r unigolyn neu'r sefydliad am eu dyletswyddau statudol o ran gwneud y trefniadau angenrheidiol, hyrwyddo cydymffurfiaid y troseddwr a rhoi gwybod i'r erlyniad a'r prif swyddog heddlu priodol am gydymffurfiaid y troseddwr neu ei ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion positif.

Ac eithrio mewn achosion o droseddu cyson iawn, ni ddylai'r Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio fod yn fwy na 3 ochr o bapur A4.

Pwynt i'w nodi: Dylai'r dystiolaeth y mae'r cais yn seiliedig arni gynnwys yr holl droseddu perthnasol ers 21 Hydref 2013.

Hysbysiad achlust drafft

HYSBYSIAD ACHLUST DRAFFT

Dileer yr adrannau nad oes arnoch eu heisiau fel sy'n briodol

HYSBYSIAD ACHLUST

Rheolau Gweithdrefnau Troseddol, Rheol 50.6

1. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu dibynnu ar dystiolaeth achlust yn ei gais am orchymyn ymddygiad troseddol yn erbyn y Diffynnydd.
2. Mae'r dystiolaeth achlust yn y Datganiadau Tystion a restrir isod ac sydd ynghlwm wrth yr Hysbysiad hwn. Mae'r Goron yn dymuno galw'r dystiolaeth hon fel tystiolaeth achlust oherwydd:
  - a. Mae'r tyst Anthony yn cynhyrchu'r datganiad swyddog arweiniol ac mae wedi llunio ei ddatganiad ar sail cofnodion a chronfeydd data'r heddlu gan gynnwys manylion o gollfarnau blaenorol. Ni fyddai'n ymarferol galw pob cyfrannwr gwreiddiol at y cronfeydd data hynny.
  - b. Mae'r tyst Barry yn cynhyrchu datganiad generig sy'n rhoi manylion problemau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r diffynnydd hwn a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig yn yr ardal y mae'r diffynnydd yn mynd iddi. Ni fyddai'n ymarferol galw ar yr achwynydd gwreiddiol ym mhob achos am ymddygiad o'r fath yn yr ardal hon.
  - c. Mae'r tyst Colin yn rhoi tystiolaeth generig am broblemau y mae wedi eu gweld gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn yr ardal. Nid yw'n rhoi tystiolaeth uniongyrchol yn erbyn y diffynnydd. Dangosir y dystiolaeth hon dan awdurdod Chief Constable of Lancashire –v -Potter : [2003] EWHC 2272 (Admin).
  - d. Mae'r tyst David yn breswylwr lleol sy'n rhoi tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y diffynnydd a'i gymdeithion. Mae gan y tyst ofn y bydd dial arno petai ei ymddangosiad yn dod yn hysbys i'r diffynnydd.
  - e. Mae'r tyst Eric yn breswylwr lleol sy'n rhoi tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y diffynnydd a'i gymdeithion. Mae gan y tyst ofn y bydd dial arno petai ei enw yn dod yn hysbys i'r diffynnydd.
  - f. Mae'r tyst Fred yn rhoi tystiolaeth wedi ei grynhai o adroddiadau tystion di-enw, gan roi manylion cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal ac o'i chwmpas. Mae gan y tystion hynny ofn dial petai eu henwau neu eu hymddangosiad yn dod yn hysbys i'r diffynnydd
  - g. Derbyniwyd dystiolaeth y tyst Gerald yn ystod proses y llys. Byddai ceisio ei groesholi ymhellach ar ôl ei gollfarnu yn mynd tu ôl i gefn y gollfarn.

Mae'r Goron am ddibynnu ar y dystiolaeth a nodwyd Cyflwynir y dystiolaeth hon dan awdurdod Clingham v Kensington & Chelsea London Borough Council : R v Manchester Crown Court, ex parte McCann & Others (2002) UKHL 39

# **CANLLAW I WAHARDDIADAU ASBO MEWN ACHOSION PAN GEIR ADRODDIAD**



**Yvette Levy – Erlynydd Arbenigol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, CPS Swydd  
Efrog a Glannau Humber  
Edmund Hall, Erlynydd Arbenigol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, CPS Llundain**

**Ebrill 2014**

# CANLLAW I WAHARDDIADAU ASBO MEWN ACHOSION Y CAFWYD ADRODDIAD AMDANYNT

Yr ail gyhoeddiad hwn o'r Cyfarwyddyd yw'r olaf fydd yn ystyried gwaharddiadau ASBO yn unig; derbyniodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 y Cydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn cyflwyno'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO) i gymryd lle'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) presennol wrth dderbyn collfarn a Gorchymyn Gwahardd Yfed ar dderbyn collfarn. Gorchymyn sifil sydd ar gael yn Llys y Goron, llysoedd ynadon, neu'r llys ieuenctid yw'r CBO a gellir gwneud cais amdano wrth i rywun gael collfarn am unrhyw drosedd. Bydd torri amodau CBO yn drosedd, gydag uchafswm o ran dedfryd o hyd at bum mlynedd yn y carchar neu ddirwy, neu'r ddau i oedolyn.

Un gwahaniaeth allweddol rhwng y CBO a'r ASBO wrth dderbyn collfarn yw y gall CBO gynnwys gofynion yn ogystal â gwaharddiadau i helpu'r tramgwyddwyr i ymdrin â'r problemau sylfaenol sy'n gyrru'r ymddygiad. Y newid arwyddocaol arall yw bod y prawf "angenrheidrwydd" yn cael ei ddisodli gan un "defnyddioldeb", pan fydd y llys yn penderfynu rhoi Gorchymyn neu beidio.

Ond ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar unwaith ar y math o waharddiadau y gellir eu ceisio a dylai'r egwyddorion o'r corff cadarn o gyfraith achos a amlinellir yn y ddogfen hon gael eu defnyddio o hyd wrth geisio gwaharddiadau ar CBO.

Yvette Levy

Edmund Hall

Ebrill 2014

## GWAHARDDIADAU YN ÔL CATEGORïAU TROSEDDU

<b>CARDOTA</b>			
<p><b>Mynd at bobl anhysbys i ofyn am arian neu elusen yn <i>[ardal ddaearyddol a nodir]</i></b></p>	<p><b>Samuda [2008] EWHC 205 (Admin)</b></p>	<p>Achos “cardota” defnyddiol. Dynododd y llys “...nid yw cardota o angenrheidrwydd yn achosi ac nid yw o angenrheidrwydd yn debygol o aflonyddu, dychryn na pheri gofid, ond gall rhai dulliau o gardota wneud hynny..”. Cymeradwywyd y gwaharddiad yn glir. Ond, fe wnaeth y llys y sylw bod angen am asesiad manwl o’r ardal ddaearyddol.</p>	<p>Sullivan J</p>
<b>DILLAD</b>			
<p><b>Mewn unrhyw fan cyhoeddus, gwisgo, neu gael unrhyw beth gyda chi sy’n gorchuddio, neu y gellid ei ddefnyddio i orchuddio, y wyneb neu ran o’r wyneb. Bydd hyn yn cynnwys dillad â hwd, balaclafa, masg neu unrhyw beth arall y gellid ei ddefnyddio i guddio pwy sydd yno ac eithrio y gellir gwisgo helmed beic modur pan fydd yr unigolyn yn marchogaeth beic modur yn gyfreithlon</b></p>	<p><b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b></p>	<p>Ni chymeradwywyd. <i>Mae amodau’r gwaharddiad yn rhy eang, gan arwain at ddiffyg eglurder a chanlyniadau nad ydynt yn gymesur â’r risg y mae’r gwaharddiad yn ceisio ymdrin â hi</i></p>	<p>Hooper LJ</p>
<p><b>Gwisgo unrhyw ddarn o ddillad gyda hwd ynghlwm wrtho mewn unrhyw fan cyhoeddus ym Mwrdeistref Llundain Greenwich, boed yr hwd i fyny neu i lawr</b></p>	<p><b>B v Greenwich Magistrates Court [2008] EWHC 2882</b></p>	<p>Cymeradwywyd dilysrwydd. Mae hwn yn achos “gang” defnyddiol iawn. Daeth y llys i’r casgliad y byddai gwahardd codi’r hwd yn unig yn aneffeithiol. Roedd B wedi gwisgo dilledyn â hwd i godi ofn, a bod yr amod dan</p>	<p>Mitting J</p>

	<b>(Admin)</b>	sylw wedi ei anelu at atal yr ofn hwnnw. Fe wnaeth yr amod gyflawni'r nod hwnnw trwy chwalu hyder B y byddai'n osgoi atebolrwydd am ei weithredoedd trwy ei wahardd rhag gwisgo dilledyn â hwd. Gellir ystyried y gwaharddiad hwn ar gyfer achosion pan fydd troseddwr yn gwisgo hwd yn barhaus i gyflawni troseddau neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol	
--	----------------	--	--

## CYRFFYW

<p><b>Bod yn unrhyw fan heblaw [nodwch y cyfeiriad] [unrhyw gyfeiriad fel y nodir gan y Tîm Troseddau leuenctid neu symud rhwng y cyfeiriadau hynny os yw'n addas] rhwng yr oriau [nodwch yr oriau priodol]</b></p>	<p><b><u>Lonergan v Lewis Crown Court and Brighton and Hove City Council [2005] EWHC 457 (Admin)</u></b></p>	<p>Cymeradwywyd y gwaharddiad cyrffyw yn benodol. <i>“Credaf ei fod yn ei gwneud yn rheidrwydd i lysoedd ynadon ystyried yn ofalus yr angen am ddarpariaeth cyrffyw a'i hyd wrth wneud ASBO. Nid yw'n dilyn, oherwydd bod rhaid i ASBO redeg am leiafswm o ddwy flynedd, y dylai pob un gwaharddiad mewn gorchymyn penodol barhau am oes y gorchymyn”</i>. Cyn ceisio gwaharddiad cyrffyw felly mae'n bwysig ystyried mater cymesuredd.</p>	<p>Kay LJ</p>
<p><b>Aros dan do rhwng 22.00 a 6.00 bob nos mewn hostel brawf a nodir gan y Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol neu gyfeiriad arall y bydd y llys yn ei gymeradwyo</b></p>	<p><b><u>Starling [2005] EWCA Crim 2277</u></b></p>	<p>Cymeradwywyd y gwaharddiad cyrffyw yn benodol.</p>	<p>Bean J</p>
<p><b>Bod yn unrhyw le heblaw eich cyfeiriad cartref fel y'i rhestrir ar y gorchymyn hwn rhwng 2330 o'r gloch a 0700 o'r gloch neu mewn cyfeiriad gwahanol fel y cytunir ymlaen llaw gyda'r swyddog troseddwr aml a blaenoriaeth neu'r cydlynnydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngorsaf Heddlu Basingstoke</b></p>	<p><b><u>Boness [2005] EWCA Crim 2395</u></b></p>	<p><i>Er y gall cyrffyw gael ei gynnwys yn briodol mewn ASBO, rydym yn amheus, fel y mae'r ymatebydd, bod gorchymyn o'r fath yn angenrheidiol yn yr achos hwn. Er bod y troseddau o ymyrryd â cherbyd modur a cheisio cyflawni byrgleriaeth (y dedfrydwyd yr apelydd amdanynt ar 16/05/02) oll wedi eu cyflawni rhwng 10 y nos a hanner nos ar yr un noson, nid oes unrhyw awgrym bod troseddau eraill wedi cael eu cyflawni yn ystod y nos. Yn ychwanegol, mae awdur yr adroddiad cyn dedfrydu yn nodi nad oedd ymddygiad troseddol yr apelydd yn disgyn i batrwm y gellid ei reoli trwy ddefnyddio gorchymyn cyrffyw.</i></p>	<p>Hooper LJ</p>

<b>DIFROD</b>			
<b>Gwneud unrhyw beth a all achosi difrod</b>	<b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b>	<i>Mae'r ymatebydd yn dadlau bod y gwaharddiad hwn, hyd yn oed os oes cyfiawnhad amdano (sydd ymhell o fod yn glir), yn llawer rhy eang. Yng ngeiriau'r ymatebydd: "A yw'r apelydd yn cael ei wahardd rhag crafu ei esgidiau?" Rydym yn cytuno.</i>	Hooper LJ
<b>Achosi neu fygwth achosi neu geisio achosi difrod i eiddo neu adeilad unigolyn arall heb esgus rhesymol o awdurdod cyfreithiol neu annog rhai eraill i wneud hynny</b>	<b>Wadmore and Foreman [2006] EWCA 686</b>	<i>Ni chymeradwywyd ar y sail ei fod eisoes yn drosedd gan fod digon o atalfa eisoes yn bodoli. Yn ychwanegol, "nid yw gorchmynion o'r fath yn ymdrin â'r broblem y mae ASBO yn ceisio ei datrys, sef sut i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn iddo ddigwydd</i>	Aitkens J
<b>YFED</b>			
<b>Yfed alcohol mewn man cyhoeddus heblaw adeilad trwyddedig</b>	<b>Starling [2005] EWCA Crim 2277</b>	Cymeradwywyd yn glir gan y llys.	Bean J
<b>Bod dan ddylanwad alcohol mewn unrhyw fan cyhoeddus</b>		Cyfaddefodd yr erlyniad bod y gwaharddiad yn rhy amwys i gael ei orfodi	
<b>Cael ei ganfod yn feddw mewn man cyhoeddus yn [tair sir a enwir]</b>	<b>McGrath [2005] EWCA Crim 353</b>	Cymeradwywyd yn benodol.	Gross J
<b>Bod yn feddw neu yfed alcohol yn unrhyw fan cyhoeddus</b>	<b>Anthony [2005] EWCA Crim 2055</b>	Cadarnhawyd dedfryd o 3 blynedd a 3 mis ar Apêl - derbyniwyd ei dilysrwydd	Henriques J
<b>Peidio â bod mewn cyflwr meddw mewn unrhyw fan cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.</b>	<b>Blackwell [2006] EWCA Crim 1671</b>	Cymeradwywyd y gwaharddiad yn benodol.	Penry-Davey J
<b>Yfed gwirod meddwl, bod dan ei ddylanwad neu fod ag ef yn ei feddiant mewn man cyhoeddus</b>		Nododd y llys bod hyn yn rhy eang ac y byddai yn anochel yn arwain at anawsterau wrth orfodi - <i>mae'n gosod yr apelydd mewn</i>	



		<i>perygl o gael ei garcharu, er enghraifft, os bydd yn cerdded i lawr y stryd gyda photel o win wedi ei selio fel anrheg i rywun</i>	
<b>GYRRU</b>			
<b>gyrru unrhyw gerbyd â gyriant mecanyddol ar ffordd gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig heb fod yn ddeiliad trwydded yrru ddilys a thystysgrif yswiriant.</b>	<b><u>Hall [2004] EWCA Crim 2671</u></b>	<i>Nid oes dim yn anghywir o ran egwyddor mewn gwneud gorchymyn o'r fath pan fydd troseddau gyrru mor aml ac o'r math ac mewn ardal fel eu bod yn cyfateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol</i>	Hunt J
<b>rhaid iddo beidio â (1) gyrru, ceisio gyrru neu ganiatáu iddo ei hun gael ei gludo mewn unrhyw gerbyd modur sydd wedi cael ei gymryd heb ganiatâd y perchennog neu awdurdod cyfreithlon arall, a (2) gyrru neu geisio gyrru cerbyd modur hyd y daw ei gyfnod o waharddiad i ben.</b>	<b><u>Kirby [2005] EWCA Crim 1228</u></b>	<i>Yn ein barn ni, nid oedd dim yn yr achos hwn, er gwaethaf record druenus yr apelydd am droseddau o'r math hwn, i gyfiawnhau defnyddio'r pŵer hwn yn yr achos presennol. Nid oedd ei effaith yn ddim mwy na thrawsnewid unrhyw drosedd o'r fath yn drosedd wahanol, sef torri gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac felly gynyddu'r gosb bosibl. Yn ein barn ni nid oedd cyfiawnhad dros hynny yn yr achos hwn yn absenoldeb amgylchiadau eithriadol.</i>	David Clarke J
<b>peidio â bod yn berchennog na benthyca unrhyw gerbyd modur nag eistedd yn sedd y gyrrwr mewn cerbyd modur ar ffordd na man cyhoeddus arall hyd orchymyn pellach</b>	<b><u>Lawson [2005] EWCA Crim 1840</u></b>	<i>am yr un rhesymau ag a roddwyd yn <u>Kirby</u>, nid oedd cyfiawnhad dros yr ASBO a roddwyd yn yr achos hwn ac roedd yn anghymesur</i>	Field J
<b>GWERTHU CYFFURIAU</b>			
<b>Peidio â chludo ffôn symudol nad yw wedi ei chofrestru yn ei enw ei hun</b>	<b><u>R v Dyer [2010] EWCA Crim 2096</u></b>	<i>"Er i'r ddadl gael ei chyflwyno i ni, braidd yn afrealistig, mai ychydig o dystiolaeth sydd bod yr apelydd yn defnyddio ffôn symudol, mae'n wallgof awgrymu nad yw gwerthwyr</i>	Thomas LJ

		<p><i>cyffuriau yn defnyddio ffonau symudol. Mae tystiolaeth glir hefyd yn yr achos hwn bod y cyswllt cyntaf yn cael ei wneud dros ffôn symudol. Mae'n hysbys i bawb bod gwerthwyr cyffuriau yn defnyddio ffonau symudol. Y broblem sy'n codi yw bod ffonau symudol weithiau yn rhai "talu wrth fynd" ac nad ydynt wedi eu cofrestru. Mae'n ymddangos yn glir i ni, os na fydd yr apelydd yn cael ei atal rhag gwerthu cyffuriau yn y dyfodol ac i'r fasnach ddieflig hon gael ei hatal cyn belled ag y mae ef yn y cwestiwn, mae'n angenrheidiol i unrhyw ffôn symudol gael ei chofrestru yn ei enw os bydd am gael un..."</i></p> <p>Fe newidiwyd y gwaharddiad gwreiddiol o ran bod raid cofrestru'r ffôn symudol gyda'r Swyddogion Cudd-wybodaeth yn yr orsaf heddlu leol. Ond, ni thrafodwyd y mater yn y llys ac felly fe'i dilëwyd o'r ASBO a phwysleisiodd y llys nad oedd hyn yn "unrhyw gynsail o gwbl": gweler Barclay isod ar y pwynt hwn.</p>	
<p><b>Peidio â chludo ffôn symudol nad yw wedi ei chofrestru yn ei enw ei hun a'i chofrestru gyda'r swyddogion cudd-wybodaeth mewn gorsaf heddlu a enwir</b></p>	<p><b><u>R v Barclay and others [2011] EWCA Crim 32</u></b></p>	<p><i>Nid oes dim yr ydym wedi ei glywed yn ein darbwyllo nad oes angen i'r apelyddion hyn gofrestru eu ffonau symudol yn eu henwau eu hunain, na bod cofrestru yn eu henwau eu hunain yn ymateb anghymesur, gan effeithio ar eu rhyddid i gysylltu. Yn y cyswllt hwnnw rydym yn mabwysiadu rhesymeg y llys hwn yn R v Dyer. Yn ystod y ddadl, derbyniodd yr erlyniad bod yr amod ychwanegol o gofrestru</i></p>	<p>Cranston J</p>

		<i>ffonau symudol gyda'r swyddogion cudd-wybodaeth yng ngorsaf heddlu Trinity Road yn ddi-fudd, o ystyried y gofyn cofrestru arall.</i>	
<b>Peidio â chyfeillachu ag unigolion eraill a enwir</b>	<b><u>R v Dyer</u> <u>[2010] EWCA</u> <u>Crim 2096</u></b>	<i>Cynigir ar ran yr apelydd nad yw'n adnabod unrhyw un o'r bobl hyn a'u bod yn digwydd bod yn bobl a arestwyd fel rhan o'r un ymgyrch. Rydym yn ystyried y dylai'r gwaharddiad fod mewn grym. Y tebygolrwydd cryf yw bod gwerthwyr cyffuriau o'r math hwn yn adnabod ei gilydd, er nad trwy'r enwau a nodir yma efallai, ond fel arall. Ar yr amod bod digon o wybodaeth adnabod yn cael ei rhoi i'r apelydd fel ei fod yn gwybod pwy yw'r bobl yma, rydym yn ystyried bod angen yr amod.</i>	Thomas LJ
	<b><u>R v Barclay and others</u> <u>[2011] EWCA</u> <u>Crim 32</u></b>	<i>Nid oedd unrhyw dystiolaeth, hyd yn oed pan oedd apelyddion penodol yn adnabod pobl ar y rhestr, a oeddent wedi cyfeillachu â nhw na natur y gyfeillach. ...Am resymau a roddir yn R v Dyer, [nid] ydym yn ystyried y gwaharddiad cyfeillachu fel un diangen nac anghymesur, er y byddai rhoi ffotograffau ac enwau stryd y rhai na ddylent gyfeillachu â nhw i bob un o'r apelyddion yn gwneud y rhan honno o'r ASBO yn gliriach, yn fwy dealladwy iddynt hwy ac yn haws ei gorfodi.</i>	Cranston J
<b>GWASANAETHAU ARGYFWNG – GALWADAU FFÔN NIWSANS</b>			
<b>Galw NHS Direct neu'r gwasanaethau argyfwng am gyngor neu gymorth meddygol neu annog unrhyw un arall i wneud hynny ar ei rhan trwy ei gweithrediadau neu ei hadroddiadau, gan</b>	<b><u>Delaney –v- Calderdale Magistrates'</u></b>	<i>Mae'r gwaharddiadau "i atal ei galwadau plagus, y galwadau y mae yn eu gwneud neu y mae wedi eu gwneud pan oedd yn gwybod yn iawn nad oedd wedi cymryd gorddos, nad</i>	Kaye J

<p>gynnwys staff yn NHS Direct, ac eithrio pan fydd wirioneddol angen gwasanaethau argyfwng i roi asesiad, gweithredu neu i roi triniaeth</p>	<p><b><u>Court [2009] EWHC 3635 (Admin).</u></b></p>	<p><i>oedd wedi niweidio ei hun, ond eto yn dal i alw'r gwasanaethau argyfwng gan honni ei bod pan nad oedd mewn gwirionedd nac mewn ffaith, a'i bod felly wedi gwastraffu eu hamser a'u rhoi mewn perygl o aflonyddwch a chamdriniaeth pan wnaethant fynd yno i brofi ei hymddygiad gwrthgymdeithasol"</i></p> <p>Fe wnaeth y llys osod y geiriau "ac eithrio pan fydd wirioneddol angen y gwasanaethau argyfwng" yn hytrach na "pan nad oes sefyllfa a allai fod yn fygythiad i fywyd"</p>	
<p><b>GORCHYMYN CADW ALLAN</b></p>			
<p>Mynd i ardal Cyngor Dosbarth Forest Heath heblaw ar gyfer mynd i'r llys</p>	<p><b><u>Vittles [2004] EWCA Crim 1089</u></b></p>	<p>Rhoddwyd cymeradwyaeth benodol i'r gwaharddiad "<i>ni ellid rhoi cyfyngiad mwy synhwyrol</i>"</p>	<p>Rose LJ</p>
<p>Mynd i mewn i Ganol Dinas Birmingham</p>	<p><b><u>Braxton [2004] EWCA Crim 1374</u></b></p>	<p><i>Ni ellir gwadu bod hyn yn gyfyngiad difrifol ar ryddid yr ymgeisydd, nid yn unig oherwydd ei fod yn cyfyngu ar ei hawl i symud yn rhydd, ond hefyd oherwydd bod torri'r cyfyngiad yn cyfateb i drosedd y gellir ei chosbi â hyd at bum mlynedd o garchar, sydd yn fwy na'r gosb uchaf y gellid ei rhoi am droseddau y gellid eu hadlewyrchu yn amodau'r gorchymyn. Ond, mae'n ymateb gan y Senedd i'r pryder cynyddol am effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei wahanol ffurfiau ar y cyhoedd. Mae'n dilyn bod rhaid i'r pryder hwn gael ei adlewyrchu yn y dedfrydau y mae'r llys yn eu rhoi am dorri'r gorchymyn</i></p>	<p>Leveson J</p>

<p><b>Mynd i unrhyw faes parcio cyhoeddus yn ardal Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane, ac eithrio yn ystod gwaith cyfreithlon.</b></p>	<p><b><u>Boness [2005] EWCA Crim 2395</u></b></p>	<p><i>Nid yw'r wybodaeth ragflaenol yn nodi a wnaeth unrhyw un o'r troseddau cerbydau a gyflawnwyd gan yr apelydd ddigwydd mewn maes parcio cyhoeddus. Ond, cynigir y gellid dadlau yn rhesymol bod unigolyn sy'n bwriadu cyflawni troseddau cerbydau yn debygol o gael ei ddenu gan feysydd parcio. Nid yw'r gwaharddiad fel y mae wedi ei ddrafftio yn ymddangos fel pe bai'n caniatáu i'r troseddwr barcio ei gar ei hun mewn maes parcio cyhoeddus, neu, er enghraifft, bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru i faes parcio cyhoeddus yn ystod taith siopa. Felly, heb dystiolaeth i ddangos bod yr apelydd wedi cyflawni troseddau cerbydau mewn meysydd parcio, mae'n ymddangos bod amheuaeth a yw'r gwaharddiad yn gymesur</i></p>	<p>Hooper LJ</p>
<p><b>mynd i mewn i unrhyw sefydliad deintyddol neu feddygol yng Nghymru neu Loegr heb hysbysiad ymlaen llawn neu aros yno</b></p>	<p><b><u>Hutchins [2005] EWCA Crim 2238</u></b></p>	<p><i>Yn ychwanegol at y ddedfryd o garchar, roedd y gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn angenrheidiol i reoli ei ymddygiad ar ôl ei ryddhau. Dangosodd yr adroddiad bod yr ymgeisydd yn parhau yn risg i bobl eraill ac nad yw'n barod i gydweithredu ac nad yw'n awyddus i newid ei ymddygiad. Felly ni welwn unrhyw sail ar gyfer ymyrryd â'r agwedd hon ar ei ddedfryd chwaith. Mae'r cais hwn wedi ei adnewyddu yn cael ei wrthod.</i></p>	<p>Treacy J</p>
<p><b>mynd i mewn i ardal ddaearyddol ddiffiniedig lle digwyddodd y drosedd am gyfnod amhenodol</b></p>	<p><b><u>Collins [2005] EWCA Crim 2176</u></b></p>	<p>Addas ond dylid ei gyfyngu i 2 flynedd. Roedd D yn gwerthu eiddo drws nesaf i'r Dioddefwr. Dim ei angen yn y tymor hir.</p>	<p>Latham LJ</p>

<p><b>Ddim i fynd i mewn i ardal wedi ei ffinio gan Chatsworth Road, Boythorpe Road, Hunlock Avenue a Walton Road yn Chesterfield.</b></p>	<p><b>Henchcliffe</b> <b>[2006] EWCA</b> <b>Crim 255</b></p>	<p><i>Effaith y gorchymyn ar ei ffurf bresennol yw na fyddai yn cael dychwelyd i'w gartref wedi iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa. Mewn geiriau eraill, byddai'n rhaid i'w gartref symud y tu allan i'r ardal a nodir gan y barnwr, neu, petai ei deulu, am unrhyw resymau teuluol, ac fe allai rhai fodoli, yn methu symud, yna ni fyddai'r apelydd yn gallu dychwelyd adref. Byddai hynny'n gychwyn trafferthus iawn i'w adsefydlu a chredwn y byddai'n debygol o leihau'r gobaith o lwyddo. Byddwn yn newid ail ran y gorchymyn, yng nghyswllt i ble y gall yr apelydd fynd, trwy leihau'r ardal y mae'n berthnasol i'r stryd lle mae Mr Spotswood yn byw, sef Wolgrove Avenue fe gredwn.</i></p>	<p>Judge LJ</p>
<p><b>Mynd i mewn i unrhyw faes parcio sy'n eiddo i Network Rail, unrhyw gwmni gweithredu trenau neu London Underground Ltd, yn cael ei agor ganddynt neu ar brydles iddynt, boed wrth dalu neu fel arall yn siroedd Hertford, Bedford neu Buckingham</b></p>	<p><b>McGrath</b> <b>[2005] EWCA</b> <b>Crim 353</b></p>	<p>Cymeradwywyd yn benodol. Mae'r gwaharddiad hwn yn hawdd ei orfodi gan y bydd y meysydd parcio wedi eu nodi a'u diffinio yn glir. Gwaharddiad delfrydol ar gyfer lleidr parhaus sy'n targedu meysydd parcio rheilffyrdd.</p>	<p>Gross J</p>
<p>Mynd i mewn i unrhyw faes parcio arall boed wrth dalu neu fel arall yn siroedd Hertford, Bedford neu Buckingham</p>		<p>Gwnaeth y llys y sylw bod y gwaharddiad hwn "yn ddraconaid i raddau na ellir eu cyfiawnhau ...[ac] yn llawer rhy eang...."</p> <p><i>Byddai'n gwahardd yr apelydd rhag mynd i mewn i unrhyw faes parcio mewn archfarchnad fel teithiwr hyd yn oed</i></p>	
<p><b>Mynd i mewn i'r ardaloedd canlynol [strydoedd a enwir] a'r cyffiniau, Northolt UB5</b></p>	<p><b>W v Acton</b> <b>Youth Court</b> <b>[2005] EWHC</b></p>	<p>Ni chymeradwywyd gan nad oedd y term cyffiniau ("environs" yn y Saesneg gwreiddiol) yn debygol o gael ei ddeall</p>	<p><b>Pitchers J</b></p>

	<b>954 (Admin)</b>		
<b>Mynd i mewn i [stad wedi ei henwi] a nodir ar y map sydd ynghlwm</b>	<b>M v DPP [2007] EWHC 1032 (Admin)</b>	Cymeradwywyd yn benodol.	Gross J
<b>Heb gyfyngiad amser, gwaherddir chi rhag mynd i mewn i Ganol Tref Wigan rhwng yr oriau o 10 yr hwyr a 7 y bore bob dydd o'r wythnos</b>	<b>Bowker [2007] EWCA Crim 1608</b>	<i>Wrth bennu a oedd graddfa amodau'r gorchymyn yn angenrheidiol, rhaid cofio nad yw'r apelydd yn byw yn Wigan. A dim ond ei wahardd rhag mynd i Wigan rhwng 9 yr hwyr a 7 y bore y mae pan fyddai'r unig ddiben tebygol am ymweliad o'r fath yn golygu mynd i glwb nos am adloniant fin nos neu yn ystod y nos. Ni allwn weld dim felly a fyddai'n cyfiawnhau'r casgliad bod yr agwedd hon o'r gorchymyn yn anaddas mewn unrhyw ffordd. Cyn belled ag y mae hyd y gorchymyn dan sylw, mae hynny wedi peri mwy o bryder i ni. Ond yn y diwedd o ystyried y ffaith y gellir gwneud cais priodol i'r llys ar unrhyw amser i'r gorchymyn gael ei addasu, nid ydym yn ystyried y byddai'n iawn ymyrryd â gorchymyn y mae'n amlwg bod y barnwr wedi ystyried ei fod yn angenrheidiol yng nghyd-destun y broblem o drais yng nghanol tref Wigan yr oedd yn llawer rhy gyfarwydd ag ef.</i>	Latham LJ
<b>Ni chaiff fynd i mewn na cheisio mynd i mewn i'r ffyrdd canlynol yn Yeadon, Leeds ac ni all fynd i mewn na cheisio mynd i mewn i unrhyw ran o unrhyw eiddo sy'n wynebu'r ffyrdd yma: Henshaw Avenue, Henshaw Crescent neu Henshaw Oval</b>	<b>Leeds City Council –v- Fawcett [2008] EWCA Civ 597</b>	<i>Mae ASBO sy'n ymdrin yn glir â materion fel ardaloedd gwaharddedig, i atal y diffynnydd rhag mynd i'r sefyllfa lle gall droseddu neu aflonyddu neu godi ofn ar gymdogion, yn ffurf a ffafrir ar waharddiad. Mae gwaharddiadau ymddygiad yn llawer anos i'r diffynnydd ei hun</i>	Rix LJ

		<i>eu gwerthuso ac i'r cymdogion neu'r cyngor lleol neu'r heddlu all fod yn gorfod eu gorfodi.</i>	
<b>Mynd i mewn i'r Castle Hill Centre, Castleton, ac eithrio i fynd i'r clwb ieuenctid.</b>	<b>F [2009] EWHC 240 (Admin)</b>	<i>nid yw'n glir pam bod paragraff 3 [y gwaharddiad hwn] o'r gorchymyn wedi cael ei wneud, gan nad yw'n ymddangos bod yr hawlydd wedi cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Castle Hill</i>	Simon J
<b>GRWPIAU</b>			
<b>Ymgynnull mewn grwpiau o bobl mewn modd sy'n achosi neu'n debygol o achosi i unrhyw unigolyn ofni am ei ddiogelwch neu ymgasglu mewn grwpiau o fwy na CHWECH o bobl mewn man cyhoeddus yn yr awyr agored</b>	<b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b>	<i>O ystyried hanes blaenorol yr apelydd gellir cyfiawnhau rhan gyntaf y gwaharddiad fel un angenrheidiol. Fel mae'r ymatebydd yn nodi, mae'n ymddangos bod y cymal olaf yn gwahardd yr apelydd rhag mynd i ddiogwyddiadau chwaraeon neu ddiogwyddiadau eraill yn yr awyr agored. Mae gwaharddiad o'r fath, yn ein barn ni, yn anghymesur. Er, fel mae'r ymatebydd yn nodi, gallai'r apelydd ddadlau bod ganddo esgus rhesymol dros fynd i'r digwyddiad, nid yw hyn, yn ein barn ni, yn ddigon o ddiogeliad</i>	Hooper LJ
<b>Ymgynnull mewn grwpiau o un neu fwy o bobl mewn modd sy'n achosi neu'n debygol o achosi i unrhyw unigolyn ofni am ei ddiogelwch</b>	<b><u>N v DPP [2007] EWHC 883 (Admin)</u></b>	<i>Cymeradwywyd dilysrwydd gan ei fod yn union fel gwaharddiad <u>Boness</u> (ibid.). Nododd y llys bod y gwaharddiad hwn yn brin o affrae.</i>	Tomlinson J
<b>Bod mewn man cyhoeddus gyda dau neu fwy o bobl ac ymddwyn mewn modd sy'n debygol o aflonyddu, codi ofn neu beri pryder</b>	<b><u>F [2009] EWHC 240 (Admin)</u></b>	<i>Mae paragraff 2 o'r gorchymyn yn cael ei fynegi mewn geiriau na fydd yn hawdd eu deall i rywun 13 mlwydd oed</i>	Simon J
<b>AFLONYDDU - HAWLIAU ANIFEILIAID</b>			



<p>Peidio â chymryd rhan yn fwriadol mewn unrhyw brotest, cyfarfod, cynulliad neu wefan sy'n protestio yn erbyn arbrofi ar anifeiliaid na'u trefnu na'u rheoli.</p>	<p><b>Avery, Avery Nicholson &amp; Medd- Hall</b> <b>[2009] EWCA</b> <b>Crim 2670</b></p>	<p><i>Credwn, ar gyfer dibenion bob dydd bod ystyr y geiriau hyn yn ddigon clir. Mae'n bwysig nodi, o ran yr agwedd o'r paragraff sy'n berthnasol i wefannau, mai trwy ddefnyddio gwefan SHAC yr oedd y ceiswyr wedi gallu cynnal eu gweithgareddau. Ni ellir gwrthwynebu darpariaeth sy'n eu gwahardd rhag sefydlu neu annog eraill i sefydlu gwefan o'r fath. Mae "Cymryd rhan", rydym yn derbyn, yn mynd ymhellach. Cynigiodd Mr Wood, petaem o'r farn y gallem beidio â dirymu'r gorchymyn, y dylem wahaniaethu rhwng "cymryd rhan" a "gorchymyn a rheoli". Rydym yn ystyried, yn amgylchiadau penodol yr achos hwn, ei bod yn gyfreithlon atal cymryd rhan mewn gwefannau sydd – a phwysleisiwn hyn – yn rhai mai eu diben yw protestio yn erbyn arbrofi ar anifeiliaid. Nid yw'n atal cymryd rhan mewn gwefannau sy'n trafod o ddifrif a ddylid caniatáu arbrofi ar anifeiliaid neu beidio. Rydym yn cydnabod y gall fod amgylchiadau pan fydd cymhwysedd y paragraff yn aneglur. Gall problem godi a yw gwefan benodol yn disgyn i'r categori, er ein bod yn amheus y bydd yn debygol o ddigwydd mewn gwirionedd. Ond, os bydd, gellir ymdrin â hynny trwy drafod yn gyntaf gyda'r erlyniad a dychwelyd i'r llys yn y sefyllfa annhebygol pan fydd dryswch gwirioneddol am faterion o'r fath.</i></p>	<p><b>Elias LJ</b></p>
<p>Peidio â mynd o fewn 1 filltir i Huntingdon Life Sciences ("HLS") yn [nodwyd dau gyfeiriad] ac eithrio ar gyfer dibenion teithio mewn cyddigwyddiad wrth fynd heibio'r adeiladau uchod mewn cerbyd modur neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.</p>			
<p>Peidio â mynd o fewn 500 metr i unrhyw adeilad a enwir yn Atodlen 1 i'r ddogfen hon, ac eithrio ar gyfer teithio mewn cyddigwyddiad wrth fynd heibio unrhyw un o'r adeiladau dywededig.</p>			
<p>Peidio ag anfon na cheisio anfon unrhyw erthygl, llythyr, ffacs neu e-bost at unrhyw un o'r cwmnïau a enwir yn Atodlen 1 na'r HLS</p>			
<p>Peidio cysylltu yn fwriadol yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, â pherchenogion, cyfranddalwyr, gweithwyr nac asiantau, nac aelodau teuluoedd y perchenogion, cyfranddalwyr, gweithwyr nac asiantau HLS pan fydd natur y cysylltiad wedi ei fwriadu neu yn debygol o aflonyddu, codi ofn neu beri pryder i unrhyw unigolyn.</p>			
<p>Peidio cysylltu yn fwriadol yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, â pherchenogion, cyfranddalwyr, gweithwyr nac asiantau, nac aelodau teuluoedd y perchenogion, cyfranddalwyr, gweithwyr nac asiantau unrhyw un o'r cwmnïau a enwir yn Atodlen 1 neu</p>			

<p>unrhyw gwmni arall sy'n cynnal busnes mewn unrhyw ffordd ag HLS pan fydd natur y cysylltiad wedi ei fwriadu neu yn debygol o aflonyddu, codi ofn neu beri pryder i unrhyw unigolyn.</p>			
<p><b>DIM CYFEILLACHU A DIM CYSYLLTIAD</b></p>			
<p>Bod yng nghwmni Jason Arnold, Richard Ashman, Corrine Barlow, Mark Bicknell, Joseph (Joe) Burford, Sean Condon, Alan Dawkins, Simon Lee, Daniel (Danny) Malcolm, Michael March neu Nathan Threshie</p>	<p><b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b></p>	<p><i>Mae gan yr ymatebydd, fodd bynnag, amheuon a yw gwaharddiad sy'n atal yr apelydd rhag cyfeillachu ag unrhyw un o'r unigolion a enwir am bum mlynedd ar ôl ei ryddhau, hyd yn oed mewn preswylfa breifat lle mae un neu fwy yn byw, yn anghymesur i'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae wedi ei ddylunio i'w atal. Rydym yn rhannu'r amheuon hynny.</i></p>	<p>Hooper LJ</p>
<p>Cyfeillachu â Chantelle Allen mewn unrhyw fan cyhoeddus;</p>	<p><b>Hills [2006] EWHC 2633 (Admin)</b></p>	<p><i>Roedd paragraff 4 yn gwahardd Joseph rhag cyfeillachu â Chantelle mewn unrhyw fan cyhoeddus. Y cwestiwn yw a oedd hynny'n waharddiad cyfreithlon, o ystyried y ffaith nad oedd Chantelle wedi ei gwahardd rhag cyfeillachu â Joseph mewn unrhyw fan cyhoeddus. Yn fy marn i, yr oedd... Nid oes amheuaeth bod gwaharddiad o'r fath yn addas pan fydd yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn yn ymddwyn mewn modd arbennig o wrthgymdeithasol pan fydd yng nghwmni'r unigolyn dan sylw. Byddai hynny'n wir er gwaethaf y ffaith nad yw'r unigolyn a enwir yn destun i orchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ei hun gyda chyfnod tebyg o beidio â chyfeillachu. Beth pe na ellid</i></p>	

		<p>gwneud gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn yr unigolyn dan sylw yn gyfreithlon, oherwydd, er enghraifft, ei fod dan ddeg oed, neu nad yw'r unigolyn ei hun wedi ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol, neu oherwydd nad oes angen gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn achos yr unigolyn dan sylw i reoli ei ymddygiad gwrthgymdeithasol? Dadleuodd Miss Gardiner bod risg wirioneddol o annhegwch petai Joseph yn destun i'r gwaharddiad heb i Chantelle fod yn destun gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda chyfnod peidio â chyfeillachu tebyg..... petai Chantelle yn dod ato ar y stryd a mynnu cerdded gydag ef ...ni fyddai Joseph yn torri'r gorchymyn ... achos byddai ganddo esgus rhesymol dros fod yn ei chwmni.</p>	
<p><b>Bod gyda [cydgyhuddiedig penodol mewn achos llys neu apelydd arall mewn ardal a ddiffinnir yn fanwl]</b></p>	<p><b>Wadmore and Foreman [2006] EWCA 686</b></p>	<p>Cymeradwywyd yn benodol.</p>	<p>Aitkens J</p>
<p><b>Cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad fydd yn achosi dychryn, yn aflonyddu neu yn peri gofid i [rheini'r apelydd]</b></p>	<p><b>Rush [2005] EWCA Crim 1316</b></p>	<p>Cymeradwywyd y gwaharddiadau yn benodol. Roedd yr achos hwn cyn i s12 Deddf Troseddau a Dioddefwyr Trais Domestig 2004 gael ei gyflwyno a fyddai wedi galluogi'r llys i osod Gorchymyn Atal yn yr un modd. Y dioddefwyr parhaus yn yr achos hwn oedd ei rieni ac nid y gymuned ehangach. Yn awr byddai'n addas ceisio Gorchymyn Atal yn hytrach nag ASBO.</p>	<p>Clarke J</p>
<p><b>Annog eraill i gymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad fydd yn achosi dychryn, yn aflonyddu neu yn peri gofid i [rheini'r apelydd]</b></p>			
<p><b>Cysylltu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â [rhieni'r apelydd]</b></p>			

<p><b>Mynd at, bygwth, codi ofn neu gyfathrebu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â [unigolion a enwir]</b></p>	<p><b>Michael T [2006] EWHC 728 (Admin)</b></p>	<p>Ni wnaed sylwadau penodol arnynt heblaw bod y gwaharddiadau "...wedi eu teilwrio yn amlwg i weddu i achos unigol yr ymatebydd..."</p>	<p>Richards LJ</p>
<p><b>Cyfeillachu mewn unrhyw fodd mewn man cyhoeddus neu fan y mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddo gyda [rhestr o enwau] neu unrhyw un ohonynt yn yr ardal a nodir mewn coch ar FAP B</b></p>			
<p><b>Ymgynnull mewn grŵp gyda mwy na thri o bobl yn yr ardal a nodir mewn coch ar FAP B</b></p>			
<p><b>Peidio â chysylltu â [dioddefwr y drosedd y cafwyd colffarn amdani] naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol</b></p>	<p><b>Henchcliffe [2006] EWCA Crim 255</b></p>	<p><i>Y mae sail, yn ein barn ni, dros ganfod risg sylweddol y bydd, wedi ei ryddhau o'r ddalfa, yn croesawu cyfle neu, ai roi yr un mor realistig, ddim yn osgoi cyfle i ymuno ag eraill, os na fydd yn barod i wneud hynny ei hyn, i boeni'r dyn anffodus hwn, a hyd yn oed os na fydd yn ymddwyn gyda thrais troseddol yn ei erbyn, i roi pwysau arno mewn modd a fyddai'n peri ofn a gofid.</i></p>	<p>Judge LJ</p>
<p><b>Cyfeillachu ag unrhyw ferch dan 16 oed</b></p>	<p><b>R v Melvin Harris [2006] EWCA Crim 1864</b></p>	<p>Achos o dorri ASBO pan oedd gan y diffynnydd hanes o ymddygiad rhywiol tuag at ferched ysgol. Fe'i dedfrydwyd am bedair blynedd am dorri'r ASBO a 18 mis o garchar am droseddau newydd i gyd-redeg. Gostyngwyd y ddedfryd i 3 blynedd a 4 mis yn syml ar y sail nad oedd y llys dedfrydu gwreiddiol wedi rhoi credyd priodol am y ble euog. Ni wnaeth y llys ymdrin yn benodol â'r</p>	<p>Kay LJ</p>

		gwaharddiad ond rhaid i hyn godi cwestiynau am ba mor hawdd y gellir ei orfodi; er enghraifft, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003, yn cyfeirio at oedran plant sy'n ddiodefswyr, gall fod yn waharddiad addas. Ond os bydd y diffynnydd yn dadlau na fydd yn gwybod oedran merched y mae'n cyfeillachu â nhw, fe allai roi'r amddiffyniad "esgus rhesymol" bob amser i ymateb i gamau a gymerir am dorri amodau.	
<b>Dim cyswllt gyda'r achwynydd, sef ei wraig, na mynd o fewn 200 metr i'r tŷ lle mae'n byw</b>	<b><u>Gowan [2007]</u></b> <b><u>EWCA Crim</u></b> <b><u>1360</u></b>	<i>roedd adran 1C(2) yn amlwg wedi ei fwriadu i amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag ymddygiad troseddwr ac nid oedd wedi ei fwriadu ac ni ellid ei ddefnyddio i ddiogelu gwraig yr oedd y troseddwr wedi bod yn cyd-fyw â hi ac y byddai'n cyd-fyw â hi yn y dyfodol</i>	Swift J
<b>Defnyddio iaith neu ymddygiad sarhaus, gwaradwyddus, fygythiol neu i godi ofn tuag at [unigolyn a enwir] o fewn golwg neu glyw unigolyn nad yw o'r un aelwyd â [yr apelydd]</b> <b>Defnyddio neu fygwth trais yn erbyn [unigolyn a enwir] o fewn golwg neu glyw i unigolyn nad yw o'r un aelwyd â [yr apelydd]</b>	<b><u>Rabess [2007]</u></b> <b><u>EWCH 208</u></b> <b><u>(Admin)</u></b>	Cymeradwywyd y ddau waharddiad yn benodol. Roedd yr apelydd yn yr achos hwn yn rhan o berthynas stormus a threisgar oedd yn peri gofid i gymdogion ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd y parti arall hefyd yn destun i ASBO. Ystyriwyd y gwaharddiad yn benodol a gwelwyd ei fod yn disgyn yn brin o ymddygiad adrannau 4 a 5 y Ddeddf Drefn Gyhoeddus ac fe roddwyd cymeradwyaeth. Dywedodd yr Ynad Mrs Dobbs "...nid ydynt yn adlewyrchu'r gyfraith yn llawn ac yn wir mae iddynt werth ychwanegol". Ychwanegodd y llys y dylid ychwanegu "o fewn golwg neu glyw unigolyn nad yw o'r un aelwyd.." at y gwaharddiad ar y sail y byddai fel arall "...yn	Dobbs J

		gallu arwain at sefyllfa annheg".	
<b>LLADRON A THRESMASU</b>			
<b>Bod ag unrhyw eitem gyda chi yn gyhoeddus y gellid ei ddefnyddio i gyflawni byrgleriaeth, neu ddwyn cerbydau neu ohonynt ac eithrio y gallwch gludo un allwedd drws ar gyfer eich tŷ ac un allwedd cerbyd modur neu glo beic. Dim ond os gallwch hysbysu swyddog gwirio o rif cofrestru'r cerbyd y gallwch gludo allwedd cerbyd modur ac y gellir canfod bod gan y cerbyd yswiriant i chi ei yrru.</b>	<b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b>	<i>wedi ei ddrafftio yn rhy eang a heb eglurder... mae nifer o eitemau y gellid eu defnyddio i gyflawni byrgleriaeth, fel cerdyn credyd, ffôn symudol neu bâr o fenig. A oedd yr apelydd yn cael ei wahardd rhag cludo eitemau o'r fath? Os felly, nid yw'r gorchymyn yn glir nac yn gymesur.</i>	Hooper LJ
<b>Mynd i mewn i unrhyw dir preifat sydd gerllaw unrhyw breswylfa neu adeilad masnachol tu allan i oriau agor yr adeilad hwnnw heb ganiatâd clir unigolyn sy'n gyfrifol am yr adeilad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gerddi o flaen tai, ffyrdd at dai a llwybrau. Heblaw wrth gyflawni gwaith cyfreithlon</b>		<i>... yn <u>McGrath</u> dadleuai'r Llys Apêl bod amod oedd yn gwahardd yr apelydd rhag "tresmasu ar unrhyw dir sy'n eiddo i unrhyw un boed yn gyfreithiol neu naturiol yn y siroedd hynny" yn rhy eang a rhy galed. Petai'r apelydd yn mynd y ffordd anghywir wrth fynd am dro a mynd i eiddo rhywun, byddai mewn perygl o gael dedfryd o garchar am bum mlynedd. Yn ein barn ni, mae'r gwaharddiad hwn, er ei fod yn llai agored i'w feirniadu na'r un yn <u>McGrath</u> hefyd yn rhy eang a rhy galed. Er y gall rhai darnau o dir gael eu dynodi yn rhwydd fel rhai sydd yn y gwaharddiad (fel gerddi o flaen tai,</i>	

		<i>ffordd at y tŷ neu lwybr) gall fod yn anos ei adnabod, dyweder, mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae absenoldeb unrhyw gyfyngiad daearyddol yn atgyfnerthu ein barn...nad oes ffordd ymarferol y gellid gorfodi cydymffurfio â'r gorchymyn, o leiaf yn union tu allan i ardal gartref yr apelydd</i>	
<b>Cyffwrdd neu fynd i mewn i unrhyw gerbyd heb neb ynddo heb ganiatâd penodol y perchennog</b>	<b>Boness [2005] EWCA Crim 2395</b>	<i>Mae gan yr apelydd gollfarnau blaenorol am gymryd cerbydau a waethygwyd ac ymyrryd â cherbyd modur, ac mae wedi cael ei geryddu am ddwyn beic modur. Dadleuir bod y gwaharddiad yn ddigon clir a manwl, a'i fod yn gymesur â'r risg y mae'n ceisio ymdrin â hi. Cytunwn yn gyffredinol ond byddai'n well gennym petai cyfyngiad daearyddol i'w gwneud yn ddichonol gorfodi'r gorchymyn. Byddai gan swyddogion lleol wedyn, o wybod am y gwaharddiad, arf defnyddiol i atal yr apelydd rhag cyflawni troseddau cerbydau. Ni fyddai'n rhaid iddynt aros nes byddai wedi cyflawni trosedd arbennig yn ymwneud â cherbydau</i>	Hooper LJ
<b>Aros ar eiddo unrhyw siop, masnachol neu ysbyty petai'r staff yn gofyn iddo adael. Mynd i mewn i unrhyw eiddo y mae wedi ei wahardd ohono.</b>		<i>Mae gan yr apelydd gollfarnau am droseddau anonestrwydd, gan gynnwys ymgais i gyflawni byrgleriaeth o siop ac mae wedi ei geryddu am ddwyn o siop. Felly, mae'n ymddangos bod sail ar gyfer gwaharddiad o'r fath. Dadleuir bod yn bosibl i'r amod hwn gael ei ddeall gan yr apelydd a'i fod yn gymesur o ystyried ei fod</i>	

		<p><i>yn dibynnu ar gael ei wrthod rhag mynd i mewn/aros mewn eiddo penodol gan y rhai sydd â rheolaeth ar yr eiddo.</i></p> <p><i>Rydym yn cytuno, er ein bod yn amheus a fyddai'r apelydd yn deall y frawddeg stacato: "Mynd i mewn i unrhyw eiddo y mae wedi ei wahardd ohono." Er nad yw'r achos yn cynnig unrhyw awgrym arall, gellid geirio'r gwaharddiad 'Mynd i mewn i unrhyw eiddo yr ydych eisoes wedi cael eich gwahardd neu eich atal rhag mynd iddo' a fyddai'n fwy clir.</i></p>	
<p><b>Mynd i mewn i unrhyw faes parcio sy'n eiddo i Network Rail, unrhyw gwmni gweithredu trenau neu London Underground Ltd, sy'n cael ei agor ganddynt neu ar brydles iddynt, boed wrth dalu neu fel arall yn siroedd Hertford, Bedford neu Buckingham</b></p>	<p><b><u>McGrath</u></b> <b><u>[2005] EWCA</u></b> <b><u>Crim 353</u></b></p>	<p>Gweler uchod dan "Gorchymyn cadw allan"</p>	<p>Gross J</p>
<p><b>Mynd i mewn i unrhyw faes parcio arall boed wrth dalu neu fel arall yn siroedd Hertford, Bedford neu Buckingham</b></p>	<p><b><u>McGrath</u></b> <b><u>[2005] EWCA</u></b> <b><u>Crim 353</u></b></p>	<p>Ni chymeradwywyd ar y sail ei fod yn "ddraconaid i raddau na ellir eu cyfiawnhau ..[ac]..yn llawer rhy eang..". Byddai'n gwahardd yr apelydd rhag mynd i mewn i unrhyw faes parcio mewn archfarchnad, fel teithiwr hyd yn oed.</p>	<p>Gross J</p>
<p><b>Tresmasu ar unrhyw dir sy'n eiddo i unrhyw unigolyn boed yn gyfreithiol neu naturiol yn y siroedd hynny</b></p>		<p>Ni chymeradwywyd ar y sail, petai'n "...mynd y ffordd anghywir wrth fynd am dro a mynd i eiddo rhywun, byddai mewn perygl o gael dedfryd o garchar am bum mlynedd</p>	



<p><b>Bod â mwrthwl ffenestr, sgrïwdreifer, fflach lamp neu unrhyw arf neu offeryn y gellid ei ddefnyddio ar gyfer torri i mewn i gerbydau modur mewn unrhyw fan cyhoeddus</b></p>		<p>Ni chymeradwywyd ar y sail bod ystyr y geiriau “unrhyw arf neu offeryn” yn amhosibl i’w bennu. Yn ychwanegol, fe wnaeth y llys sylw hefyd bod y gwaharddiad wedi ei gymhwyso ddigon “y gellid ei ddefnyddio ar gyfer torri i mewn i gerbydau modur” yn gorgyffwrdd â mynd ag offer.</p>	
<p><b>Meddu neu gyfarwyddo neu annog unrhyw un arall i gael yn ei feddiant, unrhyw eitemau yng nghyswllt tynnu olwynion cerbyd modur neu olwynion aloi</b></p>	<p><b><u>Ward [2005]</u> <u>EWCA Crim</u> <u>2713</u></b></p>	<p>Torri gwaharddiad – carchariad olynol o 6 mis i ddwy flynedd a hanner am ddwyn ac 16 TIC. Ni chyfeiriwyd yn benodol at y gwaharddiad gan fod yr apêl yn erbyn y ddeddfryd.</p>	<p>Gage LJ</p>
<p><b>Mynd i mewn neu aros ar drên heb docyn dilys i deithio ar y pryd hwnnw ar y trên hwnnw yn y prif orsafoedd canlynol: Gorsafoedd London Paddington, London Euston, London St Pancras, London King’s Cross, Marylebone, Blackfriars, Liverpool Street, Cannon Street, London Waterloo, London Bridge, Charing Cross, Victoria a Fenchurch Street am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad ei ryddhau o’r ddalfa.</b></p>	<p><b><u>Regina v</u> <u>Hinton[2006]</u> <u>EWCA Crim</u> <u>1115; 2006</u> <u>WL 1981737</u></b></p>	<p>Roedd yr apelydd yn targedu gorsafoedd ar y brif lein, yn chwilio am deithwyr oedd yn rhoi eu siacedi ar y rac uwch eu pennau. Byddai wedyn yn rhoi ei siaced ei hun agosaf at siaced y teithiwr, yn chwilota o gwmpas ac yn dwyn waled y teithiwr. Byddai wedyn yn gadael y trên ychydig cyn iddo adael. Byddai’n defnyddio unrhyw gardiau y gallai eu canfod i gael arian neu nwyddau. Roedd y gwaharddiad gwreiddiol yn ei atal rhag mynd i mewn i drên, aros arno na mynd oddi arno yn y gorsafoedd a enwyd. <i>“Rydym yn cydnabod... y bydd gorchymyn yn y geiriau hynny yn effeithio ar allu’r apelydd i deithio (ar y trên o leiaf) i wahanol rannau o’r wlad, ac yn arbennig i ddychwelyd i Lerpwl, lle’r oedd wedi dod ohono.”</i> Roedd yr amod gwreiddiol yn ddiamau yn gryfach na’r un a gymeradwywyd.</p>	<p>Leveson J</p>

<p>cyffwrdd neu fynd i mewn i unrhyw gerbyd heb neb ynddo o fewn terfynau'r M25 heb ganiatâd penodol y perchennog</p>	<p><b><u>Barnard</u></b> <b><u>[2006] EWCA</u></b> <b><u>Crim 2041</u></b></p>	<p>Roedd y Cwnsel dros yr amddiffyn yn gwrthwynebu ar sail angen ac eglurder ond dim ond ar sail angen y dirymwyd yr ASBO gan y llys.</p>	<p>Smith LJ</p>
<p>cael unrhyw garreg neu ddarn o graig neu wrthrych tebyg i dorri gwydr yn ei feddiant</p>		<p>Gweler Boness a McGrath sy'n awgrymu bod "unrhyw wrthrych tebyg" yn rhy annelwig</p>	
<p><b>ARFAU A CHYLLYLL</b></p>			
<p>Cludo unrhyw wrthrych sydd wedi ei wneud yn arf neu daflegryn neu wedi ei addasu i'r ddefnyddio felly</p>	<p><b><u>Wadmore and Foreman</u></b> <b><u>[2006] EWCA</u></b> <b><u>686</u></b></p>	<p>Ni chymeradwywyd ar y sail ei bod eisoes yn drosedd gan fod digon o atalfa eisoes yn bodoli, Yn ychwanegol, "nid yw gorchmynion o'r fath yn ymdrin â'r broblem y mae ASBO yn ceisio ei datrys, sef sut i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn iddo ddigwydd".</p>	<p>Aitkens J</p>
<p>Bod ag unrhyw eitem yn ei feddiant yn gyhoeddus neu ei gludo mewn cerbyd, y gellid ei ddefnyddio fel arf. Bydd hyn yn cynnwys poteli gwydr, gwydrau yfed ac offer</p>	<p><b>Boness [2005]</b> <b>EWCA Crim</b> <b>2395</b></p>	<p><i>nid yw'r deunydd a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn cefnogi'r angen am waharddiad o'r fath. Ychydig iawn sydd yn hanes blaenorol yr apelydd sy'n dangos tuedd at ddefnyddio arfau. Yn ychwanegol, cynigir bod geiriad y gwaharddiad yn rhy eang, gan arwain at ddiffyg eglurder a chanlyniadau nad ydynt yn gymesur â'r risg. Mae gan lawer o eitemau diniwed fel arall y potensial i gael eu</i></p>	<p>Hooper LJ</p>

		<i>defnyddio fel arfau, gan gynnwys unrhyw beth caled neu sydd ag ymyl neu flaen miniog. Mae canlyniadau draconaidd i'r gwaharddiad hwn. Byddai'r apelydd yn cael ei wahardd rhag gwneud ystod anferth o bethau gan gynnwys cael diod mewn bar cyhoeddus.</i>	
<b>Bod ag unrhyw eitem â llafn arno yn ei feddiant mewn man cyhoeddus</b>	<b><u>Starling</u> <u>[2005] EWCA</u> <u>Crim 2277</u></b>	Ni chymeradwywyd ar y sail ei bod eisoes yn drosedd ond gweler Hills isod.	Bean J
<b>cludo unrhyw gyllell neu eitem â llafn arno mewn unrhyw fan cyhoeddus</b>	<b><u>Hills</u> <u>[2006] EWHC</u> <u>2633 (Admin)</u></b>	<i>Fe allai Llys y Goron, rwy'n tybio, fod wedi addasu'r gwaharddiad ym mharagraff 2 trwy ei gyfyngu i gyllell yr oedd ei llafn yn hirach na 3 modfedd. Ond gallai hyn fod wedi annog Joseph i gludo cyllell gyda llafn llai na 3 modfedd yn unig, a byddai hynny yn ymddygiad gwrthgymdeithasol y byddai Llys y Goron am ei wahardd hefyd. Yn ychwanegol, ni fyddai'n iawn dweud bod y gwaharddiad ym mharagraff 2 yn golygu nad oedd gan Joseph y diogeliad y byddai adran 139 yn ei roi iddo fel arall, sef yr amddiffyniad statudol yn adran 139(4), h.y. y byddai'n amddiffyniad i unigolyn a gyhuddwyd o drosedd dan adran 139 i brofi fod ganddo reswm da neu ganiatâd cyfreithlon dros fod â'r eitem yn ei feddiant mewn lle cyhoeddus. Ni fyddai modd collfarnu Joseph am dorri'r gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol oni bai nad oedd ganddo esgus rhesymol am wneud yr hyn yr oedd yn</i>	Keith J

		<i>cael ei wahardd rhag ei wneud. Dan yr amgylchiadau, roedd yn gyfreithlon i Lys y Goron gadarnhau penderfyniad y llys ynadon y dylai'r gwaharddiad ym mharagraff 2 barhau mewn grym.</i>	
--	--	--	--

<b>AC YN OLAF, “Y GWAHARDDIAD CYFFREDINOL”</b>			
Gweithredu neu gymell eraill i weithredu mewn modd gwrthgymdeithasol, hynny yw, modd sy'n aflonyddu, dychryn neu beri gofid i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un aelwyd neu sy'n debygol o wneud hynny.	Boness [2005] EWCA Crim 2395	<i>Mae'r ymatebydd yn cynnig bod hwn yn orchymyn priodol i'w wneud a'i fod yn unol â chyfarwyddyd y Swyddfa Gartref. Byddai'n well gennym weld rhyw derfynau daearyddol, yn absenoldeb rhesymau da am beidio â chael terfynau o'r fath.</i>	Hooper LJ
Peidio â gweithredu mewn modd gwrthgymdeithasol yn Ninas Manceinion	<b>CPS - v- T</b> [2006] EWHC 728 (Admin)	<i>Nid oedd hyd yn oed yn cynnwys y geiriau esboniadol yn y diffiniad statudol, sef y geiriau “hynny yw mewn modd sy'n aflonyddu, dychryn neu beri gofid i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un aelwyd neu sy'n debygol o wneud hynny”. Roedd yr elfen hanfodol o eglurder ar goll o ran beth oedd yr ymatebydd yn cael ei wneud a beth nad oedd yn cael ei wneud. Ni ellid cymryd ei fod ef, bachgen rhwng 13 a 15 oed yn ystod cyfnod y gorchymyn, yn gwybod ystyr y geiriau “gweithredu mewn modd gwrthgymdeithasol”. Mae'n debyg na fyddai'n gwybod beth oedd ystyr ddaearyddol Dinas Manceinion. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth y byddai'r ddarpariaeth dan sylw yn yr achos presennol, i beidio â gweithredu mewn modd gwrthgymdeithasol, wedi cael ei ddileu ar apêl neu wrth wneud cais i amrywio'r gorchymyn...</i>	Richards LJ

<p>peidio ag ymddwyn mewn modd fyddai'n aflonyddu, dychryn neu beri pryder i unrhyw unigolyn neu yn debygol o wneud hynny</p>	<p><b><u>Heron –v- Plymouth City Council [2009] EWHC 3562 (Admin)</u></b></p>	<p><i>mae'n dal yn rhy eang ac o ddim effeithlonrwydd gwirioneddol.... Mae'r Canllaw i'r Farnwriaeth...yn ailadrodd y feirniadaeth...sy'n gofyn am i'r cyfyngiadau yng nghyswllt ymddygiad bygythiol a sarhaus ddynodi'r targedau a chyfeirio, yn ychwanegol, at gyfyngiad daearyddol i atal mynediad i ardal lle gellid targedu unigolion a nodir.</i></p> <p><b>OND</b></p> <p><u>Nid</u> yw'r Arglwydd Ustus Moses yn dweud y dylai "cyfyngiadau daearyddol i atal mynediad i ardal lle gellir targedu unigolion a nodir" fod yn rhan o'r un gwaharddiad a "gyfyngir" yn briodol i ymddygiad sy'n aflonyddu, dychryn neu beri gofid.</p> <p>Bydd llawer o droseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bygwth, cam-drin neu aflonyddu mewn modd arall ar y cyhoedd yn gyffredinol yn eu hardaloedd arferol; byddai felly yn amhosibl pennu dosbarth o ddiodefwr heb ddyblygu'r ardal weithredol. Yn Heron roedd y troseddwr eisoes wedi ei wahardd o ganolfan siopa'r ddinas gan waharddiad arall</p> <p><b>A</b></p> <p>Mae <u>Heron</u> yn ddyfarniad gan y Llys Gweinyddol, y mae'r Llys Apêl yn drech iddo, lle cymeradwywyd gwaharddiad yn union yr</p>	<p><b>Moses LJ</b></p>
---	---	---	------------------------

		un fath (er nad oedd hynny'n or-bendant) yn <u>Boness</u> uchod	
--	--	---	--

Enghraifft o dystiolaeth i gefnogi cais am CBO

DATGANIAD TYST

Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.9; Deddf MC 1980, a.5A(3)(a) a 5B; Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2005, Rheol 27.1

Datganiad PC Joe WHITE 166CW

Oedran os o dan 18 Dros 18

Swydd: Swyddog Heddlu 321932

Mae'r datganiad hwn (yn cynnwys: 2 dudalen a phob un wedi ei llofnodi gennyf fi) yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac rwyf yn ei wneud gan wybod, os bydd yn cael ei gynnig fel tystiolaeth, y byddaf yn agored i'm herlyn os wyf fi wedi nodi unrhyw beth ynddo yn fwriadol gan wybod ei fod yn ffug, neu nad wyf yn credu ei fod yn wir.

Llofnod: PC 166CW WHITE

Dyddiad: 6 Ionawr 2014

Rwyf yn gwnstabl heddlu i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan. Ar hyn o bryd rwyf yn gweithio o orsaf heddlu Paddington, yn gysylltiedig â Thîm Cymdogaeth Ddiogelach Marylebone/Central ac rwyf wedi bod yn y swydd hon ers dros ddwy flynedd. Rwyf yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi cais y Goron am Orchymyn Ymddygiad Troseddol yn erbyn y Diffynnydd:

Ms Vanessa Marie SMITH

Dyddiad Geni 15/09/1967

Eastside Supported Housing, 120 Stonegate Place, Walworth, London, SE17

PNCID 83/381686W

Mae Vanessa SMITH yn wraig sy'n yfed ar y stryd ac yn cysgu allan sy'n mynd i Fwrdeistref Llundain, Westminster, er gwaethaf y ffaith fod ganddi lety mewn man arall yn Llundain. Mae ganddi 87 crynodeb arestio a 55 collfarn yn dyddio yn ôl i 1982:

4 Trosedd yn erbyn unigolyn	(1982-2011)
2 Drosedd yn erbyn eiddo	(2009)
1 Drosedd twyll a throseddau tebyg	(1986)
47 Trosedd dwyn a throseddau tebyg	(1982-2013)
20 Trosedd yn ymwneud â'r heddlu/llysoedd/carchardai	(1989-2013)
11 Trosedd amrywiol	(1986-2011)
2 Drosedd na ellir eu cofnodi	(1986-2011)

Mae ei cholffarnau yn cynnwys: Llosgi, curo, ABH, ymosod ar Gwnstabl, ymosodiad cyffredin, aflonyddu/dychryn/peri gofid bwriadol wedi ei waethygu gan hiliaeth/crefydd, cael gwasanaethau trwy dwyll, cymryd gweithred heb ganiatâd, dwyn - dwyn o siop, mynd heb dalu, difrod troseddol, cardota, bod yn feddw ac afreolus, peidio â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol, peidio ag ildio i'r ddalfa a theithio ar reilffordd heb dalu am docyn.



Mae ei throseddau mwyaf diweddar fel a ganlyn

09/11/2013 am 1050 ar Marylebone High Street, yn Gregg's a Tesco, roedd adroddiadau gan fusnesau lleol bod SMITH ym sarhaus at aelodau o'r cyhoedd yn y stryd yn ogystal â staff Tesco. Edrychodd y PCSO Charlesworth ar ffilm camera cylch cyfyng a chadarnhau mai SMITH oedd yr unigolyn dan sylw.

11/11/2013 rhwng 0145 a 0425 yn Eglwys Hinde Street, roedd SMITH a dau ddyn digartref ar risiau'r eglwys. Trwy gydol y nos roedd yn ymddangos bod nifer o ddadleuon meddw rhwng aelodau'r grŵp. Taflwyd bocsys cardbord ac ysbwriel ar draws grisiau'r eglwys. Mae gweithwyr elusen St Mungo wedi ceisio cyfathrebu gyda'r grŵp ond ymosodwyd yn eiriol arnynt. Rhoddwyd adroddiad am hyn i'r heddlu gan ofalwr yr eglwys yn hwyrach yr un diwrnod.

16/11/2013 am 1645 ar Paddington Street, rhoddwyd cyfarwyddyd i SMITH i adael yr ardal dan a27 VCRA gan PC 197 DA Priestley.

30/11/2013 am 0825 yn Tesco, Marylebone High Street, arestiwyd SMITH am ddwyn alcohol o'r siop. Collfarnwyd yn Llys Ynadon Westminster ar 02/12/2013, dirwy o £75, £35 o gostau.

11/12/2013 am 0845 ar Marylebone High Street, gwaharddwyd SMITH o'r siop gan reolwr y siop, Mr Booth, gan iddi ddwyn o'r siop bythefnos yng nghynt. Pan roddwyd gwybod i SMITH, roedd yn eiriol ymosodol, yng ngolwg a chlyw rheni a disgyblion o ysgol gynradd St Patrick gerllaw. Roedd wedi cael ei gwahardd rhag mynd i'r siop yn barhaus, ceisio dwyn ac am fod yn ymosodol tuag at y staff. Edrychodd PCSO Charlesworth ar deledu cylch cyfyng a chadarnhau mai SMITH oedd yr unigolyn dan sylw.

22/12/2013 am 2359 yn Eglwys Hinde Street, canfu PC802 Nixon SMITH yn cysgu allan ar risiau'r Eglwys Fethodistaidd gyda nifer o bobl ddigartref eraill. Roedd blychau cardfwrdd ac ysbwriel ar draws y fynedfa.

21/12/2013 am 1915 ar Chiltern Street, gwelwyd SMITH yn cymryd rhan mewn gwerthiant cyffuriau ymddangosiadol. Cafodd ei stopio a'i chwilio gan PC 197 DA Priestley gyda chanlyniad negyddol.

24/12/2013 am 1505 yn Tesco Queensway arestiwyd SMITH am ddwyn alcohol o'r siop. Fe'i cyhuddwyd wedyn o drosedd ac mae ar fechnïaeth hyd 21/01/2014.

24/12/2013 yn Kennington Lane SE11 gwelwyd SMITH ar y stryd gan PCSO 2334LD Hopkins gydag anaf i'w phen. Pan ofynnwyd a oedd arni angen sylw meddygol, roedd SMITH yn ymosodol yn eiriol tuag at y swyddog gan gerdded oddi yno.

31/12/2013 am 0930 yn Eglwys Hinde Street rhoddodd Gofalwr yr Eglwys Fethodistaidd adroddiad bod SMITH yn parhau i gysgu allan ar risiau'r eglwys ac yn gwrthod symud ymlaen pan ofynnir iddi, gan gynnwys y bore hwnnw

02/01/2014 am 2045 ar Baker Street, gwelodd Rheolwr Diogelwch 66 Baker Street SMITH yn cwrcwd ac yn gwneud dŵr ar y stryd, yng ngolwg aelodau o'r cyhoedd oedd yn mynd heibio. Yna fe wnaeth fygwth aelod o'r cyhoedd pan heriwyd hi am ei hymddygiad.

**Vanessa Marie  
SMITH**

Dyddiad 15/09/196  
Geni 7


**Menyw**

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Unigolion dan sylw	CAD	Adroddiad Trosedd	Rhif yn y Ddalffa	Crimln t	Cudd-wybodaeth
09/11/2013	1050	Marylebone High Street	Gregg's a Tesco				Oes	Adroddiadau gan fusnesau lleol bod SMITH yn eiriol ymosodol tuag at aelodau o'r cyhoedd yn y stryd yn ogystal â staff Tesco. Yna edrychodd PCSO Charlesworth ar ffilm teledu cylch cyfyng o Tesco a chadarnhau mai SMITH oedd yr unigolyn dan sylw.
11/11/2013	1700	Eglwys Hinde Street	PCSO Charlesworth a Gofalwr yr Eglwys				Oes	Rhwng 0145 - 0425 o'r gloch ar 09/11/2013, roedd SMITH a dau ddyn digartref ar risiau'r eglwys. Trwy gydol y nos roedd, yr hyn oedd yn ymddangos, fel nifer o ddadleuon meddw rhwng aelodau'r grŵp. Taflwyd bocsys cardbord ac ysbwriel ar draws grisiau'r eglwys. Mae gweithwyr elusen St Mungo wedi ceisio cyfathrebu gyda'r grŵp ond ymosodwyd yn eiriol arnynt.

<b>30/11/2013</b>	<b>825</b>	Marylebone High Street	Tesco	Oes	Oes	Oes		Arestiwyd SMITH am ddwyn alcohol o'r siop. Yn dilyn hynny cyhuddwyd hi o'r drosedd ac fe'i cafwyd yn euog yn y llys.
<b>11/12/2013</b>	<b>845</b>	Marylebone High Street	Rheolwr Tesco				Oes	Gwaharddwyd SMITH o'r siop. Pan roddwyd gwybod i SMITH, roedd yn eiriol ymosodol, yng ngolwg a chlyw rhieni a disgyblion o ysgol gynradd St Patrick gerllaw. Roedd wedi cael ei gwahardd rhag mynd i'r siop yn barhaus, ceisio dwyn ac am fod yn ymosodol tuag at y staff. Edrychodd PCSO Charlesworth ar deledu cylch cyfyng a chadarnhau mai SMITH oedd yr unigolyn dan sylw.
<b>22/12/2013</b>	<b>2359</b>	Eglwys Hinde Street	PC Nixon				Oes	Daethpwyd o hyd i SMITH yn cysgu allan ar risiau'r Eglwys Fethodistaidd gyda nifer o bobl eraill ddigartref. Roedd blychau cardfwrdd ac ysbwriel ar draws y fynedfa.
<b>24/12/2013</b>	<b>1505</b>	Queensway	Tesco	Oes	Oes	Oes		Arestiwyd SMITH am ddwyn alcohol o'r siop. Yn dilyn hyn fe'i cyhuddwyd â'r drosedd ac mae ar fechnïaeth hyd 21/01/2014.
<b>02/01/2014</b>	<b>930</b>	Eglwys St Anselm	Gofalwr				Oes	Cwynion gan yr Eglwys gan fod SMITH yn parhau i gysgu allan ar risiau'r eglwys ac yn gwrthod symud ymlaen pan ofynnir iddi.

<b>04/01/2014</b>	<b>Amherthnas ol</b>	Baker Street	E-bost at yr heddlu gan Reolwr Diogelwch 66 Baker Street					Gwelwyd SMITH yn cwrcwd a gwneud dŵr yn y stryd, yng ngolwg aelodau o'r cyhoedd oedd yn mynd heibio. Yn dilyn hynny fe wnaeth fygwth aelod o'r cyhoedd pan heriwyd hi am ei hymddygiad.
-------------------	----------------------	--------------	--	--	--	--	--	---

Vanessa SMITH



This product includes mapping data licensed from Ordnance Survey with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright and/or database right 2012. All rights reserved. Licence number LA 100013957

Map produced  
Date: May 21

**HYSBYSIAD O  
FWRIAD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN YMDDYGIAD TROSEDDOL OS BYDD Y DIFFYNNYDD YN  
CAEL EI GOLLFARNU**

**A'R  
CAIS A FWRIEDIR**  
(*Rheolau Gweithdrefnau Troseddol 2005, Rheol 50.3*)

**R v Vanessa SMITH**

**Yn Llys Ynadon Westminster**

**1. MAE'R HYSBYSIAD hwn i ddweud wrthy ch chi**

**Vanessa SMITH**

**15/09/1967**

**Cyfeiriad hysbys olaf:** Eastside Supported Housing, 120 Stonegate Place, Walworth, London, SE17

os byddwch yn cael collfarn am un neu fwy o droseddau yr ydych wedi cael eich cyhuddo ohonynt fod yr erlynydd yn bwriadu gwneud cais i'r llys am i orchymyn ymddygiad troseddol gael ei wneud yn eich erbyn.

**2. AMODAU'R GORCHYMYN y mae'r erlynydd am i'r llys eu gwneud yw:**

**Rhaid i'r diffynnydd beidio:**

1. Mynd i mewn i ardal Ward Marylebone High Street, (map ynghlwm), a'r terfynau yw:

- Marylebone Road yn y Gogledd
- Harley Street yn y Dwyrain
- Wigmore Street yn y De, a
- Gloucester Place yn y Gorllewin.

(er y gall ddefnyddio unrhyw un o'r ffyrdd hyn ei hun)

2. Bod ag unrhyw gynhwysydd diod alcoholaidd yn ei meddiant sy'n agored mewn unrhyw fan cyhoeddus, heblaw adeilad trwyddedig, yn Ninas Westminster.
3. Bod yn feddw mewn unrhyw fan cyhoeddus yn Ninas Westminster.

**am gyfnod o bum (5) mlynedd.**

**Rhaid i'r diffynnydd:**

**(nodwch unrhyw ofynion cadarnhaol)**

**3. HYSBYSIAD I'R DIFFYNNYDD Y RHODDIR y ddogfen hon iddo/iddi:**

Os cewch eich collfarnu, byddwch yn cael cyfle i esbonio i'r llys pam yr ydych yn meddwl na ddylid gwneud y gorchymyn a gynigir. (Rhaid i hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw dystiolaeth y byddwch yn dibynnu arni gael ei gyflwyno i'r swyddog llys a'r erlynydd.)

**4. Enw a chyfeiriad yr erlynydd:**

**5. Trosedd(au) y cyhuddir y diffynnydd ohonynt:**

**6. Dogfennau ynghlwm i gefnogi'r cais a fwriedir:**

Mae'r erlynydd yn rhoi'r deunyddiau canlynol y bydd y cais yn seiliedig arnynt ynghlwm: (*Rhowch eitemau (i) a (ii) ynghlwm ym mhob achos a (iii) a (iv) pan fydd yn berthnasol.*)

**(i) Disgrifiad o'r ymddygiad (rhestr, gyda dyddiadau, o'r gweithredoedd penodol o ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd yr erlynydd yn dibynnu arnynt wrth wneud y cais hwn)**

1. Ar 09/11/2013 ar Marylebone High Street, Westminster, roeddech yn eiriol ymosodol tuag at y cyhoedd a staff y siop. (dangoswyd ar deledu cylch cyfyng).
2. Ar 30/11/2013 ar Marylebone High Street, Westminster, fe wnaethoch ddwyn alcohol o Tesco. (Collfarnwyd yn Llys Ynadol Canol Llundain).
3. Ar 11/12/2013 ar Marylebone High Street, Westminster, pan gawsoch wybod eich bod wedi eich gwahardd o Tesco, roeddech yn eiriol ymosodol yng ngolwg a chlyw rhieni a disgyblion yn yr ysgol gynradd gerllaw. (dangoswyd ar deledu cylch cyfyng).
4. Ar y 22/12/2013 ar Hinde Street, Westminster, roeddech yn cysgu allan ar risiau'r Eglwys.
5. Ar y 22/12/2013 ar Baker Street, Westminster, fe wnaethoch gwrcwd a gwneud dŵr yn y stryd yng ngolwg aelodau o'r cyhoedd oedd yn mynd heibio a bygwth aelod o'r cyhoedd pan wnaeth eich herio am eich ymddygiad.

**(ii) Tystiolaeth y dibynnir arni:**

**Datganiad:**

- PC Joe White
- Eitem arddangos JW/1 – teledu cylch cyfyng o Sunrise Food and Wines, Marylebone High Street ar 09/11/2013
- Eitem arddangos JW/2 – teledu cylch cyfyng o Tesco, Marylebone High Street ar 11/12/2013

**Nid yw Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 yn berthnasol i'r cais hwn**

**(iii) Hysbysiad o unrhyw dystiolaeth achlust y dibynnir arni.<sup>1</sup>**

*(Rheolau Gweithdrefnau Troseddol 2005, Rheol 50.6)*  
HYSBYSIAD O FWRIAD I DDIBYNNU AR DYSTIOLAETH ACHLUST

3. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu dibynnu ar dystiolaeth achlust yn ei gais am orchymyn ymddygiad troseddol yn erbyn y Diffynnydd.
4. Mae'r dystiolaeth achlust yn y Datganiadau Tystion a restrir isod ac sydd ynghlwm wrth yr Hysbysiad hwn. Mae'r Goron yn dymuno galw'r dystiolaeth hon fel dystiolaeth achlust oherwydd:
  - h. PC White sy'n cynhyrchu'r datganiad swyddog arweiniol ac mae wedi llunio'r dystiolaeth ar sail cofnodion a chronfeydd data'r heddlu gan gynnwys manylion o gollfarnau blaenorol. Ni fyddai'n ymarferol galw pob cyfrannwr gwreiddiol at y cronfeydd data hynny.

Mae'r Goron am ddibynnu ar y dystiolaeth a nodwyd Cyflwynir y dystiolaeth hon dan awdurdod *Clingham v Kensington & Chelsea London Borough Council : R v Manchester Crown Court, ex parte McCann & Others (2002) UKHL 39*

Llofnodwyd (Erlynydd) *EHall*

<sup>1</sup> Gweler rheol 50.6.

**Dyddiad 7/1/14**

**Rhaid i'r hysbysiad hwn a'r cais arfaethedig gael eu cyflwyno, gyda'r atodiadau a restrir y bydd y cais yn seiliedig arnynt, cyn gynted ag sy'n bosibl (heb aros am ddedfryd) i swyddog y llys ac i'r diffynnydd.**



### Gorchymyn Ymddygiad Troseddol – proses i ganfod barn y tîm troseddau ieuenctid lleol

Cyn gwneud cais am CBO, os bydd y troseddwr dan 18 oed pan wneir y cais, rhaid i'r erlyniad gael gwybod beth yw barn y tîm troseddau ieuenctid lleol. Bydd y broses, isod, a defnyddio'r templed sydd ynghlwm, yn sicrhau bod barn y tîm troseddau ieuenctid yn cael ei gynnwys yn y ffeil o dystiolaeth a anfonir ymlaen at yr erlyniad.

- Yr heddlu/ awdurdod lleol yn dynodi'r posibilrwydd o wneud cais am CBO yng nghyswllt y person ifanc. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl, ac, yn ddelfrydol, wrth gyhuddo.
- Bydd yr heddlu / awdurdod lleol (fel y sefydliad sy'n paratoi'r cais am CBO) yn cael gwybod barn y tîm troseddau ieuenctid, ac yn ffonio arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y Tîm Troseddau Ieuenctid wrth wneud y cais i'w rybuddio o hynny a'r amserlen dan sylw. Dylai'r swyddog heddlu / awdurdod lleol gadw nodyn ffeil yn rhoi manylion y sgwrs gydag arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y tîm troseddau ieuenctid.
- Y tîm troseddau ieuenctid yn ystyried eu hymateb i'r cais ac yn cofnodi eu barn ar y templed (ynghlwm).
- Yr heddlu / awdurdod lleol yn paratoi'r cais am y CBO (gan gynnwys drafftio'r gwaharddiadau / gofynion a gynigir), a fydd yn cynnwys y templed a lenwyd gan y tîm troseddau ieuenctid, a'u cyflwyno i'r CPS yn electronig ynghyd â thystiolaeth i gefnogi'r cais.
- Bydd yr erlynydd yn effro, wrth gyhuddo / adolygu ffeiliau, i achosion lle gall cais CBO fod yn addas ond na ofynnwyd amdano gan asiantaeth arall. Yr erlynydd i gofnodi'r angen i gael barn y tîm troseddau ieuenctid ar yr MG3.
- Yr erlynydd yn adolygu'r ffeil o dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr heddlu, yn ogystal â'r cais am CBO a'r dystiolaeth i gefnogi hynny a roddwyd gan yr heddlu / awdurdod lleol.
- Pan na fydd barn y tîm troseddau ieuenctid lleol yn rhan o'r ffeil CBO, rhaid i'r erlynydd gysylltu â'r heddlu / awdurdod lleol i ofyn am farn y tîm troseddau ieuenctid.
- Bydd yr erlynydd yn paratoi Hysbysiad o Fwriad i Ymgeisio os na dderbynnir barn y tîm troseddau ieuenctid cyn pen 5 diwrnod gwaith.